Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

# Llyfr Cyllideb 2026-27

# Cynnwys


| Teitl | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Adran 1. Cyllidebau refeniw a chyfalaf 2026-27** | | |
| 1.1 | Cyflwyniad | 4 |
| 1.2 | Ffeithiau allweddol am y gyllideb 2026-27 | 5 |
| 1.3 | Trosolwg ariannol | 6 |
| 1.4 | Ariannu gwasanaethau'r cyngor | 8 |
| **Adran 2. Crynodeb o'r taliadau sydd i'w codi** | | |
| 2.1 | Y dreth gyngor ac ystod gwerthoedd y bandiau | 10 |
| 2.2 | Gofyniad y dreth gyngor 2026-27 | 12 |
| 2.3 | % cynnydd band D y dreth gyngor 2026-27 | 13 |
| 2.4 | Taliadau'r dreth gyngor Band D a godir yn ôl ardal cyngor cymuned a thref 2026-27 | 14 |
| 2.5 | Ardrethi annomestig (busnes) (NDR) | 15 |
| **Adran 3. Cyllideb refeniw 2026-27** | | |
| 3.1 | Cyllideb gros i'r gyllideb net | 17 |
| 3.2 | Cyllideb refeniw gros | 18 |
| | • O ble y daw'r arian o Incwm Refeniw Crynswth 2026-27 | 18 |
| | • O ble y daw pob £1 a gaiff ei wario gan y cyngor | 19 |
| | • Ble caiff yr arian ei wario – yn ôl categori gwariant | 19 |
| | • Ble caiff yr arian ei wario – yn ôl maes gwasanaeth | 20 |
| 3.3 | Cyllideb refeniw net | 21 |
| | • Ariannu'r gyllideb refeniw net | 21 |
| | • Cyllideb refeniw net yn ôl gwasanaeth | 22 |
| | • Cyllideb refeniw net yn ôl categori gwariant | 22 |
| | • Dadansoddiad tybiannol o dreth gyngor Band D yn ôl gwasanaeth | 23 |
| 3.4 | Gwariant refeniw net yn ôl cyfarwyddiaeth | 24 |
| **Adran 4. Cyllideb gyfalaf 2026-27** | | |
| 4.1 | Cyllideb gyfalaf 2026-27 | 48 |
| 4.2 | Ariannu'r rhaglen gyfalaf | 49 |
| 4.3 | Dyrannu'r gyllideb gyfalaf | 49 |
| **Adran 5. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – ystadegau allweddol** | | |
| 5.1 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 51 |
| 5.2 | Ystadegau gwasanaeth | 52 |
| **Adran 6. Geirfa** | | |
| 6.1 | Geirfa | 58 |

# Adran 1

## Cyllidebau refeniw a chyfalaf 2026-27


# Adran 1: Cyllidebau refeniw a chyfalaf 2026-27

## 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2026-27 ar ffurf gryno, ynghyd â gwybodaeth ariannol arall. Mae'n cynnwys crynodeb o'r gyllideb a gwybodaeth arall am ariannu'r gyllideb gyffredinol, gan gynnwys y ffordd y caiff y Dreth Gyngor ei phennu. Nid yw'r Dreth Gyngor wedi newid o ganlyniad i Setliad Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol. Mae'n cynnwys y Rhaglen Gyfalaf sydd ar waith tan 2035-36 hefyd. Diben yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon yw helpu'r cyhoedd, Aelodau Etholedig, Prif Swyddogion a'u staff i ddeall y sefyllfa ariannol bresennol a pharatoi ar gyfer cyllidebau'r dyfodol.

1.1.2 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am gynnwys y llyfryn hwn at y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid, a Swyddog Adran 151, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB neu drwy e-bostio talktous@bridgend.gov.uk.

## 1.2 Ffeithiau allweddol am y gyllideb 2026-27



## 1.3 Trosolwg ariannol

1.3.1 Ers i lymder ddechrau yn 2010 mae'r Cyngor wedi gwneud bron i £96.7 miliwn o ostyngiadau yn y gyllideb. Er y bwriedir i gyllideb refeniw net y Cyngor fod yn £408.149 miliwn ar gyfer 2026-27, mae cyfanswm ei wariant yn llawer uwch na hyn. Gan ystyried gwariant a gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan grantiau neu ffioedd at haliadau penodol, bydd cyllideb gros y Cyngor (gan gynnwys praeseptau) oddeutu £548 miliwn yn 2026-27.

1.3.2 Mae cyllideb refeniw flynyddol y Cyngor yn cwmpasu costau rhedeg y Cyngor o ddydd i ddydd (gan gynnwys cyflogau staff, gwasanaethau dan gontract, cyfleustodau, cynnal a chadw adeiladau, costau gweithredol ac ati). Mae £240 miliwn o'r gyllideb gros yn cael ei wario ar staff y Cyngor ei hun gan gynnwys athrawon a staff cymorth ysgolion. Mae llawer o gostau'r gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau allanol hefyd yn gysylltiedig â chyflogau – mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, gweithredwyr casglu gwastraff, gweithwyr gofal cartref, staff hamdden a gofalwyr maeth. Mae'r Cyngor yn cael y rhan fwyaf o'i gyllid refeniw gros gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw a chyfran o Ardrethi Annomestig. Mae'n ategu hyn drwy gasglu'r dreth gyngor, grantiau eraill a ffioedd a thaliadau. Mae'r dreth gyngor yn swm y mae awdurdodau lleol yn ei godi er mwyn helpu i dalu am eu gwasanaethau. Mae swm y dreth gyngor sy'n ofynnol er mwyn mantoli cyllideb y Cyngor wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n ariannu bron i 28% o'r gyllideb net ar hyn o bryd.

1.3.3 Yn ogystal â bod â llai o incwm gwirioneddol i ariannu gwasanaethau, mae mathau eraill o bwysau sy'n rhoi straen ar adnoddau. Dyma rai ohonynt:

- Newidiadau deddfwriaethol mewn gofal cymdeithasol, gan gynnwys Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025, sy'n adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i symud tuag at ddileu elw o ofal cymdeithasol i blant, gofynion diogelu er mwyn amddiffyn oedolion gan gynnwys diogelwch rhag amddifadu rhyddid, newidiadau i'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar gyfer plant a'r gofyniad statudol i awdurdodau lleol adlewyrchu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal mewn trefniadau comisiynu.

- Newidiadau deddfwriaethol eraill e.e. ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu digartrefedd, cyfrifoldebau awdurdodau lleol mewn cysylltiad ag ymateb i newid hinsawdd a chyflawni targedau carbon sero net, Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

- Cynnydd mewn angen mewn gofal cymdeithasol i blant. Er bod integreiddio'r gwasanaethau cymorth cynnar a chryfhau recriwtio parhaol mewn timau gwaith cymdeithasol plant wedi gwella arferion ar sail cryfder ac wedi arwain at leihad mewn cofrestriadau amddiffyn plant a nifer y plant sydd wedi bod mewn gofal, mae gan y plant hynny sydd wedi profi gofal y lefel uchaf o anghenion a'r anghenion mwyaf cymhleth, sydd angen gofal maeth a llety preswyl, gofal a chymorth. Y llynedd, gwelwyd heriau sylweddol o ran digonolrwydd llety, gofal a chymorth i blant sydd wedi bod mewn gofal, sy'n fater y mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ei wynebu. Bu nifer cyson o leoliadau preswyl annibynnol cost uchel ac, ar adegau, lleoliadau 'gweithredu heb gofrestru' ar gyfer plant a phobl ifanc. Bu gostyngiad hefyd yn nifer y gofalwyr maeth mewnol sydd wedi cynyddu'r angen am ofal preswyl.

- Newidiadau demograffig - mae maint y boblogaeth yn cynyddu wrth i bobl fyw'n hirach gyda chyflyrau iechyd cymhleth. Mae hyn yn golygu bod nifer y bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn cynyddu gyda salwch ac anabledd sy'n gysylltiedig ag oedran. Gall poblogaeth sy'n heneiddio ddod ag ystod o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol sydd angen gofal a chymorth. Mae'r argyfwng costau byw hefyd yn rhoi mwy o bwysau ar deuluoedd a threfniadau gofal anffurfiol. Mae anghenion wedi eu gwaethygu gan oedi wrth gael triniaeth gan y GIG.

- Cynnydd yn yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, ar wahân ac yn ychwanegol at hawl i gael Pryd Ysgol Am Ddim i Bawb Llywodraeth Cymru, sy'n dod â phwysau ariannu ychwanegol, oherwydd bod hyn yn cynyddu swm y cyllid sydd angen ei ddarparu i ysgolion drwy eu cyllidebau dirprwyedig.

- Yn fwy diweddar, lleihad yn y gyfradd casglu treth gyngor, oherwydd yr amgylchiadau economaidd anodd y mae pobl yn cael eu hunain ynddynt. Mae hyn ynghyd â chynnydd posibl mewn cymorth treth gyngor wrth i fwy o bobl gael eu hunain ar incwm isel neu'n hawlio budd-daliadau yn ystod yr argyfwng costau byw.

1.3.4 Mae'r dasg o Gynllunio Cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 yn parhau i fod yn fwy ansicr a heriol nag arfer, gyda nifer o bwysau cost presennol a newydd sy'n ymgyflwyno ac yn hawlio gan adnoddau cyfyngedig y Cyngor. Hefyd, mae disgwyliadau uchel ar y Cyngor o hyd i fynd i'r afael â digartrefedd yn fwy cadarn, ac ar sail cynaliadwy tymor hwy, ac yn ogystal â diwallu anghenion gofal cymdeithasol poblogaeth sy'n tyfu ac sy'n heneiddio, sy'n arwain at gynnydd mewn galw a chostau yn ogystal ag achosion mwy cymhleth mewn gwasanaethau i oedolion a phlant. Yn ogystal â hynny, mae darparwyr gofal cymdeithasol – yn y Cyngor a gwasanaethau comisiynu – yn profi pwysau chwyddiant sylweddol oherwydd chwyddiant cyflog, gan gynnwys codiadau uwchlaw chwyddiant at y Cyflog Byw Gwirioneddol, cynnydd diweddar i gostau yswiriant gwladol a chostau ynni cynyddol. Rydym hefyd yn parhau i weld rhagor o bwysau cyllidebol mewn gwasanaethau ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, oherwydd cynnydd yn y galw a chymhlethdod yr anghenion. Mae'r Cyngor yn gorfod rheoli gwariant a gwasanaethau mewn hinsawdd sy'n gofyn am fwy o gymorth i'r aelodau hynaf o gymdeithas a'r rhai sy'n fwy agored i niwed, gyda galw sylweddol am lawer o wasanaethau.

1.3.5 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngoryn nodi'r dulliau y bydd yn eu cymryd i reoli'r pwysau hyn gan barhau hefyd i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, y gellir darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dinasyddion a chymunedau Pen-y-bont ar Ogwr. Dyma'r dulliau gweithredu:

- Er ei fod yn sefydliad mawr a chymhleth, bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i weithio fel un sefydliad unigol. Mae hynny'n golygu osgoi dyblygu a thrin data ddwywaith drwy rannu systemau a phrosesau. Nid yw hyn bob amser mor hawdd ag y mae'n ymddangos oherwydd yn aml mae rheolau neu gyfleoedd gwahanol yn berthnasol i wahanol wasanaethau. Serch hynny, mae gweithredu fel 'Un Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i wella bywydau' yn rhan annatod o weledigaeth y Cyngor.
- Bydd y Cyngor yn cefnogi cymunedau a phobl i ddod yn fwy gwydn drwy greu eu hatebion eu hunain a lleihau'r ddibyniaeth ar y Cyngor. Nad yw'n gynaliadwy i'r Cyngor barhau i geisio diwallu'r holl anghenion sy'n codi ac oherwydd bod yna gapasiti, doniau a syniadau'n bodoli yn y gymuned y gellir eu hannog i fod â rhan weithredol ac effeithiol wrth gynnal ac yn aml wrth wella gwasanaethau lleol. Mae gan y Cyngor rôl o ran annog, galluogi ac arwain y dull hwn ac mae wedi mabwysiadu hyn fel un o'i egwyddorion sylfaenol.
- Mae'r Cyngor wedi cytuno ar egwyddor o ganolbwyntio adnoddau sy'n lleihau ar y cymunedau a'r unigolion mwyaf anghenus. Mae gan rannau o'n cymuned broblemau hirdymor o ran tlodi ac anfantais. Nid yw'r atebion i hyn dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor yn gyfan gwbl (er enghraifft, effeithiau newidiadau i'r system les) ond lle y bo'n bosibl, mae'r Cyngor wedi cytuno ei fod am leddfu problemau yn y meysydd hyn a datblygu atebion cynaliadwy tymor hwy. Bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar gyrff cyhoeddus, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021, yn adlewyrchu'r nodau hyn.

## 1.4 Ariannu gwasanaethau'r cyngor

1.4.1 **Gwasanaethau'r Cyngor**

Mae'r Cyngor yn darparu neu'n galluogi cannoedd o wasanaethau ar draws yr holl gymunedau amrywiol yn y fwrdeistref sirol ac mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau fel addysg, gofal cymdeithasol, priffyrdd, parciau a mannau agored, trafnidiaeth gyhoeddus, hawliau tramwy, diogelwch ar y ffyrdd, casglu sbwriel, glanhau strydoedd, refeniw a budd-daliadau, diogelu'r cyhoedd, digartrefedd, cofrestryddion a gwasanaethau hamdden, y celfyddydau a llyfrgelloedd drwy ein partneriaid HALO ac Awen. Mae'r Cyngor yn gwneud dau fath o wariant – gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.

1.4.2 **Gwariant refeniw**

Mae gwariant refeniw yn cynnwys gwariant ar gostau gwasanaethau o ddydd i ddydd gan gynnwys cyflogau staff, cynnal a chadw adeiladau a chyflenwadau cyffredinol, comisiynu a chyfarpar. Telir am y gwariant hwn o'r incwm a dderbynnir gan dalwyr y dreth gyngor, talwyr ardrethi busnes, y ffioedd a'r taliadau a godir am wasanaethau penodol ac o grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru.

1.4.3 **Gwariant cyfalaf**

Mae gwariant cyfalaf yn cynnwys gwariant ar asedau fel ffyrdd, ysgolion newydd, cynlluniau ailddatblygu a gwaith adnewyddu mawr ar adeiladau. Bydd yr asedau hyn yn cynnig manteision i'r gymuned am nifer o flynyddoedd a chaiff y gwariant ei ariannu'n bennaf drwy fenthyca, grantiau cyfalaf, a gwerthu tir ac adeiladau diangen.

1.4.4 **Ffynonellau cyllid**

Y prif ffynonellau incwm y mae'r Cyngor yn eu derbyn yw ffioedd a thaliadau, grantiau, ardrethi busnes a'r dreth gyngor. Rhoddir diffiniad o'r rhain isod:

- **Ffioedd a thaliadau**
  Mae ffynonellau incwm o ffioedd a thaliadau yn amrywio o daliadau am barcio i lety preswyl i'r henoed, taliadau prydau ysgol, taliadau cynllunio, taliadau am gasglu gwastraff swmpus, llogi cyfleusterau ac incwm o osod eiddo masnachol fel unedau diwydiannol.

- **Grantiau'r Llywodraeth**
  Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol drwy nifer o ffynonellau, gan gynnwys y grant unigol mwyaf, sef y Grant Cynnal Refeniw, y gellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben y maent yn ei ddewis wrth ddarparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae cyllid arall a ddarperir i Gynghorau gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys grantiau at ddibenion penodol. Yn ogystal â'r cyllid y mae awdurdodau'n ei gael gan Lywodraeth Cymru, maent yn derbyn rhai grantiau wedi'u neilltuo gan gyrff eraill y llywodraeth (dim ond at y dibenion penodol y cânt eu darparu y gellir defnyddio'r grantiau hyn).

- **Ardrethi busnes**
  Mae awdurdodau lleol yn cael incwm hefyd drwy Lywodraeth Cymru o ardrethi annomestig (busnes) a bennir yn genedlaethol.

- **Y dreth gyngor**
  Ar ôl ystyried incwm o ffioedd a thaliadau, grantiau'r llywodraeth ac ardrethi annomestig, ariennir gwariant refeniw gan y dreth gyngor, a godir ar bob eiddo yn ardal y Cyngor, yn amodol ar ostyngiadau ac eithriadau penodol. Y dreth gyngor yw'r unig elfen o gyllid y cyngor sy'n seiliedig ar dreth, nad yw'n cael ei phennu gan Lywodraeth Cymru. Yn 2026-27, cronfeydd incwm treth gyngor bron i 28% o wariant refeniw net y cyngor.

- **Cyllid cyfalaf**
  Mae awdurdodau lleol yn derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf, a gallant bennu faint y gallant fforddio ei fenthyca yn seiliedig ar asesiad darbodus o'u harian gan ddefnyddio codau ymarfer proffesiynol e.e Cod Darbodus Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Cyfeirir at arian a fenthycir dan y cod fel Benthyca Darbodus.

# Adran 2

## Crynodeb o'r taliadau sydd i'w codi

# Adran 2: Crynodeb o'r taliadau sydd i'w codi


## 2.1 Y dreth gyngor ac ystod gwerthoedd y bandiau

2.1.1 Mae faint o'r dreth gyngor y mae preswylydd yn ei dalu yn dibynnu ar y band y mae ei eiddo/annedd ynddo. Dyrennir pob annedd i un o naw band gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA), asiantaeth annibynnol nad yw'n rhan o'r Cyngor. Ers 2005, cyfrifwyd y dreth gyngor gan ddefnyddio naw band prisio (bandiau A i I) a sefydlwyd yn 2005 gan ddefnyddio gwerthoedd tai 2003. Fodd bynnag, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd yn asesu eiddo pan ofynnir iddo wneud hynny, er enghraifft yn ystod apêl y dreth gyngor neu wrth adolygu band.

2.1.2 Mae'r tabl isod yn rhoi manylion canran yr anheddau cyngor yn ôl band y dreth gyngor.

| Band | Ystod gwerth Anheddau (Gwerth Eiddo ar 1 Ebrill 2003) | Cymhareb | Nifer yr Anheddau | % yr anheddau yn y band |
|---|---|---|---|---|
| A | Hyd at £44,000 | 6/9 | 10,596 | 15.98 |
| B | £44,001 i £65,000 | 7/9 | 15,374 | 23.18 |
| C | £65,001 i £91,000 | 8/9 | 14,848 | 22.39 |
| **D** | **£91,001 i £123,000** | **9/9** | **11,066** | **16.69** |
| E | £123,001 i £162,000 | 11/9 | 8,031 | 12.11 |
| F | £162,001 i £223,000 | 13/9 | 4,487 | 6.77 |
| G | £223,001 i £324,000 | 15/9 | 1,512 | 2.28 |
| H | £324,001 i £424,000 | 18/9 | 295 | 0.44 |
| I | £424,001 a throsodd | 21/9 | 114 | 0.16 |
| **Total** | | | **66,323** | **100** |

Mae'r siart isod yn dangos canran anheddau'r dreth gyngor ym mhob band.




**Mae 61.55% o eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn talu llai na'r hyn sy'n cyfateb i 'Band D' sef y band a ddefnyddir i gymharu lefelau'r Dreth Gyngor ar draws Awdurdodau Lleol.**

2.1.3 Mae'r tabl isod yn dangos lefel y dreth gyngor ar gyfer trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ôl band prisio. Ar gyfer eiddo Band D, sy'n cyfrif am 16.69% o'r eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, elfen y cyngor o'r dreth gyngor yw £2,007.06.

## Ystod Gwerthoedd Bandiau'r Dreth Gyngor 2026-27 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| Band | Ystod gwerth Anheddau (Gwerth Eiddo ar 1 Ebrill 2003) | Y Dreth Gyngor 2025-26 £ | Y Dreth Gyngor 2026-27 £ |
|---|---|---|---|
| A | Hyd at £44,000 | 1,277.97 | 1,338.04 |
| B | £44,001 i £65,000 | 1,490.97 | 1,561.05 |
| C | £65,001 i £91,000 | 1,703.96 | 1,784.05 |
| **D** | **£91,001 i £123,000** | **1,916.96** | **2,007.06** |
| E | £123,001 i £162,000 | 2,342.95 | 2,453.07 |
| F | £162,001 i £223,000 | 2,768.94 | 2,899.09 |
| G | £223,001 i £324,000 | 3,194.93 | 3,345.10 |
| H | £324,001 i £424,000 | 3,833.92 | 4,014.12 |
| I | £424,001 a throsodd | 4,472.91 | 4,683.14 |

2.1.4 Mae bil y dreth gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 (1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2027) yn cynnwys taliadau a godir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (yn unol â'r tabl uchod), ynghyd â'r rheolau ar gyfer yr Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Chynghorau Cymuned a Thref. Mae'r Cyngor yn casglu'r taliadau a godir ar gyfer y ddau gorff arall drwy fecanwaith y dreth gyngor. Yna telir yr arian a gesglir i'r cyrff perthnasol yn unol â'r hyn y maent wedi'i gynnwys yn eu cyllideb i godi ar aelwydydd ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## 2.2 Gofyniad y dreth gyngor 2026-27

2.2.1 Er mwyn cwblhau ei gyllideb, mae'n rhaid i'r Cyngor bennu gofyniad y dreth gyngor– sef y swm o arian sydd i'w godi gan y dreth gyngor. Mae hyn ar ôl ariannu'r holl ofynion ac asesu lefelau incwm gan y llywodraeth ac o fannau eraill. Ar hyn o bryd, mae'r dreth gyngor yn cyfrif am tua 28% o'r arian y mae'r Cyngor yn ei gael. Mae lefel y cynnydd yn ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng anghenion y Cyngor a'i ddinasyddion. Sylfaen y Dreth Gyngor Gros ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2026-27 yw 57,223.97 eiddo cyfwerth â Band D a'r gyfradd gasglu a amcangyfrifir yw 97.5%. Felly, sylfaen net y dreth gyngor yw 55,793.37, sy'n rhoi treth gyngor Band D o £2,007.06, fel y nodir yn y tabl isod:


### Cyfrifir y Dreth Gyngor gyfartalog ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr isod:

| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 2025-26 £ | 2026-27 £ |
|---|---|---|
| Gwariant a godwyd ar y Cyfrif Refeniw | 529,801,345 | 547,704,709 |
| Incwm a gredydwyd i'r Cyfrif Refeniw | (146,575,320) | (139,555,740) |
| **Cyllideb Gwariant Net** | **383,226,025** | **408,148,969** |
| Wedi'i ariannu'n rhannol gan: | | |
| Grant Cynnal Refeniw (RSG) | (223,939,596) | (245,260,376) |
| Dosbarthiad Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (Ardrethi Busnes) | (52,588,052) | (50,907,952) |
| **Swm i'w ariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** | **106,698,377** | **111,980,641** |
| Gofyniad y Dreth Gyngor | 106,698,377 | 111,980,641 |
| Sylfaen y Dreth Gyngor Net (Cyfwerth â Band D) | 55,660.20 | 55,793.37 |
| **Gofyniad Band D y Dreth Gyngor** | **£1,916.96** | **£2,007.06** |
| **Newid Canrannol dros y flwyddyn flaenorol** | **4.5%** | **4.70%** |

## 2.3 % cynnydd band D y dreth gyngor 2026-27

2.3.1 Mae'r swm sydd i'w dalu o'r dreth gyngor eleni yn £111.981 miliwn. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 4.7% yn y taliad Band D cyfartalog a godir am elfen y cyngor bwrdeistref sirol. Mae hyn o ganlyniad i'r pwysau parhaus y mae'r cyngor yn eu hwynebu. Mae praesept Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru ar gyfer eiddo Band D wedi cynyddu 6.99%, ac mae praesept cyfartalog y Cynghorau Cymuned a Thref ar gyfer eiddo Band D wedi gostwng 6.11%. Cyfanswm y cynnydd cyffredinol cyfartalog yn y dreth gyngor ar gyfer eiddo Band D yw 5.11%.

### % y newid yn y dreth gyngor i Fand D 2026-27



## 2.4 Taliadau'r dreth gyngor Band D a godir yn ôl ardal cyngor cymuned a thref 2026-27

2.4.1 Roedd y tabl blaenorol yn dangos y dreth gyngor ar gyfer trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ôl band eiddo. Mae praeseptau Cynghorau Tref a Chymuned yn amrywio ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynhyrchu amrywiadau yn y cyfanswm sy'n daladwy gan y deiliad tŷ yn yr un band treth gyngor mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol, ac mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o gyfanswm y dreth gyngor a godir, gan gynnwys y cyfanswm sy'n daladwy yn ôl ardal Cyngor Tref a Chymuned ar gyfer 2026-27 ar gyfer eiddo Band D:

| Cyngor Cymuned a Thref | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr £ | Cyngor Cymuned a Thref £ | Yr Heddlu £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Bracla | 2,007.06 | 49.00 | 405.14 | 2,461.20 |
| Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 2,007.06 | 136.21 | 405.14 | 2,548.41 |
| Cyngor Cymuned Cefn Cribwr | 2,007.06 | 77.66 | 405.14 | 2,489.86 |
| Cyngor Cymuned Coety Uchaf | 2,007.06 | 29.90 | 405.14 | 2,442.10 |
| Cyngor Cymuned Corneli | 2,007.06 | 73.67 | 405.14 | 2,485.87 |
| Cyngor Cymuned Llangrallo Uchaf | 2,007.06 | 34.17 | 405.14 | 2,446.37 |
| Cyngor Cymuned Llangrallo Isaf | 2,007.06 | 73.36 | 405.14 | 2,485.56 |
| Cyngor Cymuned Cwm Garw | 2,007.06 | 59.18 | 405.14 | 2,471.38 |
| Cyngor Cymuned Trelales | 2,007.06 | 64.57 | 405.14 | 2,476.77 |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Isaf | 2,007.06 | 71.66 | 405.14 | 2,483.86 |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol | 2,007.06 | 92.44 | 405.14 | 2,504.64 |
| Cyngor Tref Maesteg | 2,007.06 | 69.52 | 405.14 | 2,481.72 |
| Cyngor Cymuned Merthyr Mawr | 2,007.06 | 34.81 | 405.14 | 2,447.01 |
| Cyngor Cymuned Castellnewydd Uchaf | 2,007.06 | 36.66 | 405.14 | 2,448.86 |
| Cyngor Cymuned Cwm Ogwr | 2,007.06 | 35.47 | 405.14 | 2,447.67 |
| Cyngor Tref Pencoed | 2,007.06 | 55.54 | 405.14 | 2,467.74 |
| Cyngor Tref Porthcawl | 2,007.06 | 71.52 | 405.14 | 2,483.72 |
| Cyngor Cymuned y Pîl | 2,007.06 | 64.78 | 405.14 | 2,476.98 |
| Cyngor Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr | 2,007.06 | 29.93 | 405.14 | 2,442.13 |
| Cyngor Cymuned Ynysawdre | 2,007.06 | 32.04 | 405.14 | 2,444.24 |

## 2.5 Ardrethi annomestig (busnes) (NDR)

2.5.1 Ardrethi annomestig yw'r modd y mae busnesau a pherchnogion eiddo annomestig eraill yn cyfrannu at gostau gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae ardrethi busnes yn dreth leol flynyddol. Mae talwyr ardrethi a pherchnogion pob eiddo annomestig a busnes yn talu ardrethi busnes, ac mae enghreifftiau o eiddo atebol yn cynnwys siopau, swyddfeydd, tafarndai, warysau a ffatrïoedd.

2.5.2 Pennir y lluosydd Ardrethi Busnes Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Bydd 3 lluosydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27. Dywedodd Llywodraeth Cymru "Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dyrannu £8 miliwn ychwanegol er mwyn darparu rhyddhad am flwyddyn arall i eiddo lletygarwch bwyd a diod, gan gynnwys tafarndai, bwytai a lleoliadau cerddoriaeth byw. Mae'r cymorth hwn yn cydnabod yr amrywiaeth o bwysau cost sy'n wynebu busnesau cymwys ac sy'n cyd-ddigwydd â biliau ardrethi annomestig cynyddol i lawer sydd yn y sector. Bydd talwyr ardrethi cymwys yn cael rhyddhad o 15% yn ardrethi annomestig 2026-27. Fel gyda chymorth dros dro tebyg yn y blynyddoedd blaenorol, bydd y rhyddhad yn berthnasol hyd at drothwy o £110,000 fesul busnes ledled Cymru. Bydd y rhyddhad yn cael ei ddyfarnu gan ddefnyddio pwerau dewisol awdurdodau lleol, yn dilyn ceisiadau gan dalwyr ardrethi cymwys ar ôl 1 Ebrill 2026."

| Ardrethi Annomestig (Busnes) – (a bennir gan Lywodraeth Cymru) | 2026-27 |
|---|---|
| lluosydd manwerthu sy'n berthnasol i siopau manwerthu bach a chanolig sydd â gwerth ardrethol o dan £51,000 | 35c fesul £ |
| lluosydd safonol sy'n berthnasol i'r mwyafrif o'r eiddo eraill | 50.2c fesul £ |
| lluosydd uwch sy'n berthnasol i eiddo sydd â gwerth ardrethol sy'n uwch na £100,000 | 51.5c fesul £ |

Noder: Yn flaenorol, cymhwyswyd un Lluosydd Ardrethi Busnes Cenedlaethol (a osodwyd gan Lywodraeth Cymru). 56.8c fesul £ oedd hyn ar gyfer 2025-26

2.5.3 Cyfrifir Ardrethi Annomestig (NDR) drwy gymryd Gwerth Ardrethol (RV) eiddo a'i luosi â 'lluosydd' yr NDR am y flwyddyn dan sylw.

2.5.4 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn casglu ardrethi busnes ar ran Llywodraeth Cymru. Yna caiff cyfran o'r swm a gesglir ei ailddosbarthu i awdurdodau lleol yng Nghymru, yn seiliedig ar boblogaeth oedolion pob awdurdod, fel rhan o'r setliad llywodraeth leol, i dalu am wasanaethau.

2.5.5 Mae gwybodaeth am eiddo sydd wedi'u heithrio rhag talu ardrethi busnes, neu sy'n talu cyfradd is, ar gael yn y cyfeiriad gwefan canlynol: https://businesswales.gov.wales/cy/pynciau-a-chyfarwyddyd/treth-busnes-trethi-ardrethi-ac-adeiladau/ardrethi-busnes-yng-nghymru

# Adran 3


## Cyllideb refeniw 2026-27

# Adran 3: Cyllideb refeniw 2026-27

## 3.1 Cyllideb gros i'r gyllideb net

3.1.1 Fel rhan o broses pennu'r gyllideb a'r dreth gyngor, mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (adran 32) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyfrifo amcangyfrif o wariant net a elwir yn ofyniad y gyllideb.

Mae'r diagram isod yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb gros a net:





3.1.2 **Y Gyllideb Refeniw**
Dyma'r cyfrif a ddefnyddir ar gyfer talu am y gwariant ar wasanaethau awdurdod lleol o ddydd i ddydd. Dyma'r gwariant sy'n destun craffu a chyhoeddusrwydd fwyaf gan ei fod yn cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor a chaiff ei ariannu'n rhannol, ond nid yn gyfan gwbl, o incwm y dreth gyngor.

## 3.2 Cyllideb refeniw gros

Mae'r siartiau isod yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer incwm gros a gwariant ar gyfer 2026-27. Cost gros gwasanaethau refeniw a ddarperir gan y Cyngor yn 2026-27 yw £548 miliwn; mae hyn yn cynnwys gwariant a ariannwyd gan ffrydiau incwm eraill yn cynnwys grantiau eraill gan y Llywodraeth, grantiau a chyfraniadau eraill, derbyniadau cwsmeriaid a chleientiaid a llog ar fuddsoddiadau.

### O ble y daw'r arian o Incwm Refeniw Crynswth 2026-27 (£547.705m)




* Mae Ffioedd, Taliadau ac Incwm Arall yn cynnwys ailgodi taliadau rhwng cyfarwyddiaethau (£7.449 miliwn), incwm mewnol gan gynnwys incwm sy'n gysylltiedig â chontractau (£10.315 miliwn), incwm gan gwsmeriaid a chleientiaid (£28.298 miliwn) ac incwm cyffredinol arall.

## O ble y daw pob £1 a gaiff ei wario gan y Cyngor



**54c** Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru ac Ardrethi Annomestig

**20c** Y Dreth Gyngor

**13c** Grantiau Penodol y Llywodraeth

**9c** Ffioedd, Taliadau a Godir ac Incwm Arall

**4c** Grantiau a Chyfraniadau Eraill

Ceir dadansoddiad o'r gwariant refeniw gros yn ôl categori gwariant yn y tabl isod:

## Ble caiff yr arian ei wario – yn ôl categori gwariant

### Gwariant gros yn ôl math o wariant 2026-27 (£547.705m)




- Costau sy'n gysylltiedig â safleoedd **(3.24% - £17.732m)**
- Gwariant sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth **(3.66% - £20.048m)**
- Cyflenwadau a Gwasanaethau **(11.19% - £61.294m)**
- Taliadau Trydydd Parti **(23.92% - £131.025m)**
- Taliadau Trosglwyddo **(10.94% - £59.908m)**
- Gwasanaethau Cymorth **(0% - £0.025m)**
- Costau Ariannu Cyfalaf **(1.95% - £10.655m)**
- Costau Cyflogeion **(45.10% - £247.018m)**

Ceir dadansoddiad o'r gwariant refeniw gros yn ôl maes gwasanaeth yn y tabl isod:

## Ble caiff yr arian ei wario – yn ôl maes gwasanaeth

### Ble caiff yr arian ei wario
### Gwariant Refeniw Gros 2026-27 (£547.705m)




Noder: Mae Swyddogaethau Eraill ar draws y Cyngor yn cynnwys Costau Ariannu Cyfalaf, Ardollau, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a darpariaeth gorfforaethol ar gyfer cyflogau a phrisiau.

Mae Gwasanaethau Cymorth Canolog y Prif Weithredwyr yn cynnwys: Cyllid, Archwilio, Adnoddau Dynol, TGCh, Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Rheoleiddiol, Tai a Digartrefedd, Cymorth Busnes, ac Etholiadau a Phartneriaethau.


Cymunedau – yn cynnwys Rheoli Cyfleusterau ac Asedau, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, Adfywio Strategol, yr Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd, Strydoedd Glanach a Rheoli Gwastraff, Landlord Corfforaethol, a Phriffyrdd a Mannau Gwyrdd.

## 3.3 Cyllideb refeniw net

Mae'r siartiau isod yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer incwm net a gwariant ar gyfer 2026-27. Cost net gwasanaethau refeniw a ddarperir gan y Cyngor yn 2026-27 yw £408.149 miliwn; mae hyn yn cynnwys gwariant a ariannwyd gan y grant cynnal refeniw, cyfran o ardrethi annomestig a'r dreth gyngor yn unig.

### Ariannu'r gyllideb refeniw net

Mae'r siart canlynol yn dadansoddi prif ffynonellau ariannu gwariant net ar gyfer 2026-27:



## Cyllideb refeniw net yn ôl gwasanaeth

Mae'r siart isod yn dangos y gyllideb refeniw net o £408.149 miliwn yn ôl maes gwasanaeth:

### Gwariant net ar wasanaethau 2026-27 (£408.149m)



- Cymunedau **(9.02% - £36.825m)**
- Prif Weithredwr **(7.04% - £28.724m)**
- Cyllidebau ar draws y Cyngor **(13.41% - £54.741m)**
- Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc **(8.20% - £33.456m)**
- Ysgolion **(31.89% - £130.166m)**
- Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant **(30.44% - £124.237m)**

## Cyllideb refeniw net yn ôl categori gwariant

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion gwariant refeniw net yn ôl categori gwariant:

| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Cyllideb £' miliwn | % |
|---|---|---|
| Costau Cyflogeion | 247.018 | 45.09% |
| Costau sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 17.732 | 3.24% |
| Gwariant sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth | 20.048 | 3.66% |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 61.294 | 11.19% |
| Taliadau Trydydd Parti | 131.025 | 23.92% |
| Taliadau Trosglwyddo | 59.908 | 10.94% |
| Gwasanaethau Cymorth | 0.025 | 0.01% |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 10.655 | 1.95% |
| **Cyllideb Gros** | **547.705** | **100%** |
| **Grantiau ac Incwm Arall** | | |
| Grantiau Penodol y Llywodraeth | (73.330 ) | |
| Grantiau a Chyfraniadau Eraill | (18.787 ) | |
| Ffioedd, Taliadau a Godir ac Incwm Arall | (47.439 ) | |
| **Cyllideb Net** | **408.149** | |

## Dadansoddiad tybiannol o dreth gyngor Band D yn ôl gwasanaeth

Ceir dadansoddiad tybiannol o gyllideb refeniw net 2026-27 yn seiliedig ar Fand D sy'n cyfateb i £2,007.06 (cynnydd o 4.7%), fel enghraifft, yn y tabl isod:

| Gwariant Gwasanaeth | Cyllideb Net £ | Tybiannol Cyfwerth â Band D £ |
|---|---|---|
| Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc | 33,456 | £164.52 |
| Ysgolion | 130,166 | £640.09 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 124,237 | £610.93 |
| Cymunedau | 36,825 | £181.09 |
| Prif Weithredwr | 28,724 | £141.25 |
| **Cyllidebau ar draws y Cyngor** | | |
| Cyllid Cyfalaf | 5,907 | £29.05 |
| Ardollau | 10,483 | £51.55 |
| Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 670 | £3.29 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 17,804 | £87.55 |
| Ardoll Prentisiaethau | 869 | £4.27 |
| Costau sy'n Gysylltiedig â Phensiynau | 430 | £2.11 |
| Premiymau Yswiriant | 1,363 | £6.70 |
| Cyllidebau Eraill ar draws y Cyngor | 17,215 | £84.66 |
| **Gwariant Net i'w ariannu** | **408,149** | **£2,007.06** |

## 3.4 Gwariant refeniw net yn ôl cyfarwyddiaeth

### 3.4.1 Trosolwg o Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc

Mae'r Cyngor yn bwriadu gwario £164 miliwn ar wasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn 2026-2027, cyn dyrannu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer cynnydd mewn cyflogau a phrisiau.

Bydd y rhan fwyaf o'r arian hwn yn cael ei wario'n uniongyrchol gan y 59 ysgol ac 1 uned cyfeirio disgyblion ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ysgolion yw maes gwariant unigol mwyaf y Cyngor.

Yn ogystal â'r gyllideb arfaethedig gwerth £130 miliwn i'w dirprwyo i ysgolion i ddechrau yn 2026-2027, mae'r Cyngor eisoes wedi gwario £21.6 miliwn ar adeiladu ac adnewyddu ysgolion yn rhan o Fand A o'n Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y 21ain Ganrif ac mae wedi ymrwymo i £41 miliwn arall yn rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Mae'r symiau hyn yn cynnwys gwariant cyfalaf untro dros sawl blwyddyn, gan gynnwys cyllid ar gyfer gwaith tir a seilwaith, gydag arian cyfatebol sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r cysyniadau a gynigir yn seiliedig ar y galw a ragwelir am leoedd ysgol, ein cymorth i hybu'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'n dymuniad i greu capasiti ychwanegol i ddiwallu anghenion plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n debygol mai hyn fydd y maes gwariant cyfalaf mwyaf i'r Cyngor yn y blynyddoedd i ddod.

Mae gan y Cyngor nod tymor hwy i wneud system gyffredinol yr ysgolion yn fwy effeithlon (er enghraifft, drwy sicrhau bod gennym y nifer cywir o leoedd ysgol ar gael yn y rhannau cywir o'r sir (gan gynnwys sicrhau bod capasiti digonol ar gyfer y cynnydd disgwyliedig yn y boblogaeth oedran ysgol yn y dyfodol)).

Mae amcanion llesiant y Cyngor yn blaenoriaethu cefnogi pobl sy'n agored i niwed a'u helpu i fod yn fwy hunangynhaliol.

Mae elfen Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc y gyfarwyddiaeth yn cefnogi:

- blynyddoedd cynnar a darpariaeth gofal plant (gan gynnwys rhaglen ehangu Dechrau'n Deg sy'n uchelgeisiol)
- ymgysylltu ag addysg (gan gynnwys diogelu mewn ysgolion, cymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed, mynychu'r ysgol a gwaharddiadau o'r ysgol)
- gwasanaethau cymorth ieuenctid (ymyriadau mynediad agored (clybiau ieuenctid) ac ymyriadau wedi eu targedu, gan gynnwys arwain ar gymorth i'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant)
- gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid (sy'n cwmpasu ymyriadau statudol ac ataliol).

3.4.1.1 **Refeniw Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc: gwasanaethau a ddarperir**

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | ADDYSG, BLYNYDDOEDD CYNNAR A PHOBL IFANC | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---:|---|---:|
| | **Cymorth i Ddysgwyr** | |
| 8,953,880 | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 9,891,080 |
| **8,953,880** | **Is-gyfanswm** | **9,891,080** |
| | **Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc** | |
| - | Cymorth i Grwpiau Agored i Niwed | 1,377,030 |
| 2,780,780 | Cymorth i Deuluoedd | 1,910,510 |
| **2,780,780** | **Is-gyfanswm** | **3,287,540** |
| | **Perfformiad a Chymorth Strategaeth** | |
| 13,062,180 | Cymorth Busnes | 12,914,510 |
| 276,690 | Iechyd a Diogelwch | 278,030 |
| **13,338,870** | **Is-gyfanswm** | **13,192,540** |
| | **Cymorth i Ysgolion** | |
| 733,730 | Gwella Ysgolion | 935,350 |
| 44,410 | Gwasanaeth Cerdd Ysgolion | 175,440 |
| **778,140** | **Is-gyfanswm** | **1,110,790** |
| | **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy** | |
| 3,995,290 | Moderneiddio Ysgolion | 4,033,750 |
| **3,995,290** | **Is-gyfanswm** | **4,033,750** |
| | **Addysg Arall** | |
| 1,806,040 | Rheoli Strategol | 1,940,300 |
| **1,806,040** | **Is-gyfanswm** | **1,940,300** |
| | **Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig** | |
| 123,209,000 | Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig | 130,166,000 |
| **123,209,000** | **Is-gyfanswm** | **130,166,000** |
| | | |
| **154,862,000** | **Cyfanswm: Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc** | **163,622,000** |

3.4.1.2 **Refeniw Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc: math o wariant**

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | ADDYSG GANOLOG, BLYNYDDOEDD CYNNAR A PHOBL IFANC | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 3,133,370 | Athrawon | 3,556,370 |
| 294,750 | Prif Swyddogion | 426,770 |
| 10,811,530 | Swyddogion | 11,415,930 |
| 235,730 | Arweinwyr Ieuenctid | 232,130 |
| 428,620 | Swyddogion Soulbury | 437,240 |
| 67,000 | Staff Asiantaeth | 67,000 |
| 944,460 | Hyfforddiant Staff a Chostau Pensiwn Hanesyddol | 944,460 |
| - | Gweithio Oddi ar y Gyflogres (IR35) | 127,190 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 20,000 | Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 20,000 |
| 15,000 | Cynnal a Chadw'r Tir | 15,000 |
| 135,930 | Rhenti | 342,180 |
| 2,000 | Cyflenwadau Domestig a Glanhau | 2,000 |
| 14,000 | Costau Adeiladau a Rennir | 14,000 |
| 2,800 | Yswiriant Safleoedd | 2,800 |
| 5,340 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 5,340 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 3,450 | Costau Trafnidiaeth Uniongyrchol | 3,450 |
| 12,650 | Llogi Gwasanaethau Fflyd | 12,650 |
| 10,647,170 | Llogi Contract a Lesio Gweithredol | 10,527,970 |
| 4,200 | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 3,920 |
| 79,740 | Lwfans Ceir | 80,740 |

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | ADDYSG GANOLOG, BLYNYDDOEDD CYNNAR A PHOBL IFANC (parhad) | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---:|---|---:|
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 375,290 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 371,410 |
| 1,782,390 | Arlwyo | 1,794,160 |
| 11,970 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 11,760 |
| 40,430 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu ac ati. | 14,320 |
| 640 | Hysbysebu | 640 |
| 131,610 | Grantiau a Thanysgrifiadau | 131,930 |
| 151,890 | Gwasanaethau a Ddefnyddir a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 150,040 |
| 50,440 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 41,400 |
| 2,500 | Treuliau Staff | 2,500 |
| 2,848,440 | Grantiau Blynyddoedd Cynnar a Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol | 3,756,260 |
| 50 | Yswiriant | 50 |
| 2,841,110 | Costau Refeniw Menter Cyllid Preifat Maesteg | 2,871,260 |
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 664,630 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 867,280 |
| 1,796,250 | Sefydliadau Gwirfoddol | 1,796,250 |
| 54,540 | Contractwyr Allanol | 59,440 |
| | **Costau Ariannu Cyfalaf** | |
| 900,960 | Ad-daliadau Benthyca Darbodus | 905,120 |
| **38,510,880** | **Cyfanswm Gwariant** | **41,010,960** |
| | **Incwm** | |
| (944,110) | Grantiau | (1,155,650) |
| (1,229,190) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (1,324,190) |
| (3,843,330) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (4,143,330) |
| (841,250) | Ailgodi taliadau i gyfrifon refeniw eraill | (841,250) |
| - | Ailgodi taliadau ar Gyfarwyddiaethau eraill (Mewnol) | (90,540) |
| **(6,857,880)** | **Cyfanswm Incwm** | **(7,554,960)** |
| | | |
| **31,653,000** | **Cyfanswm: Addysg Ganolog, Blynyddoedd Cynnar A Phobl Ifanc** | **33,456,000** |

3.4.1.3 **Cyllideb ddirprwyedig yr ysgol: math o wariant**

| Math o Ysgol | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---|---|
| Cynradd | 62,809,660 |
| Uwchradd | 55,043,380 |
| Arbennig | 12,312,960 |
| **Cyfanswm** | **130,166,000** |

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | CYLLIDEBAU YSGOLION DIRPRWYEDIG | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 90,990,600 | Athrawon | 94,939,740 |
| 30,373,400 | Swyddogion | 31,037,470 |
| 83,310 | Arweinwyr Ieuenctid | 81,240 |
| 1,751,020 | Staff Asiantaeth | 1,751,020 |
| 108,200 | Treuliau Gweithwyr Anuniongyrchol | 108,200 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 1,226,500 | Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 1,226,500 |
| 186,520 | Cynnal a Chadw'r Tir | 186,520 |
| 4,101,160 | Costau Ynni | 4,101,160 |
| 79,000 | Rhenti | 79,000 |
| 2,326,880 | Ardrethi Busnes / Y Dreth Gyngor | 2,326,880 |
| 333,930 | Gwasanaethau Dŵr | 333,930 |
| 138,400 | Gosodiadau a Ffitiadau | 138,400 |
| 797,700 | Cyflenwadau Domestig a Glanhau | 826,700 |
| 34,300 | Yswiriant Safleoedd | 34,300 |
| 88,000 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 88,000 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 30,950 | Costau Trafnidiaeth Uniongyrchol | 30,950 |
| 500 | Llogi Gwasanaethau Fflyd | 500 |
| 187,500 | Llogi Contract a Lesio Gweithredol | 187,500 |
| 4,680 | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 4,680 |
| 15,700 | Yswiriant Trafnidiaeth | 15,700 |
| 29,600 | Lwfans Ceir | 29,600 |

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | CYLLIDEBAU YSGOLION DIRPRWYEDIG (parhad) | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---:|---|---:|
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 3,336,900 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 3,338,400 |
| 4,715,610 | Arlwyo | 4,730,190 |
| 2,700 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 2,700 |
| 329,100 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu ac ati. | 329,100 |
| 7,000 | Hysbysebu | 7,000 |
| 28,800 | Grantiau a Thanysgrifiadau | 28,800 |
| 153,700 | Gwasanaethau a Ddefnyddir a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 153,700 |
| 1,081,500 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 1,081,500 |
| 2,705,560 | Cytundebau Lefel Gwasanaeth | 2,705,560 |
| 8,900 | Ffioedd Cynadleddau | 8,900 |
| 79,100 | Yswiriant | 79,100 |
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 20,000 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 20,000 |
| 1,443,020 | Contractwyr Allanol | 1,443,020 |
| 200 | Priffyrdd - Diogelwch a Chymhorthion | 200 |
| | **Taliadau Trosglwyddo** | |
| 83,800 | Grantiau Dillad | 83,800 |
| **146,883,740** | **Cyfanswm Gwariant** | **151,539,960** |
| | **Incwm** | |
| (18,412,070) | Grantiau | (16,111,290) |
| (1,425,760) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (1,425,760) |
| (3,704,270) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (3,704,270) |
| (8,300) | Llog | (8,300) |
| (90,000) | Ailgodi Tâl i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (90,000) |
| (34,340) | Trosglwyddiadau wedi'u Clustnodi sy'n Gysylltiedig â Chronfeydd Wrth Gefn | (34,340) |
| **(23,674,740)** | **Cyfanswm Incwm** | **(21,373,960)** |
| | | |
| **123,209,000** | **Cyfanswm: Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig** | **130,166,000** |

### 3.4.2 **Trosolwg o wasanaethau cymdeithasol a llesiant**

Ar ôl Addysg, gofal cymdeithasol yw'r maes gwariant mwyaf y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol i blant a theuluoedd ac i oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth. Yn y Gyfarwyddiaeth, mae pwyslais ar atal a llesiant, ymarfer ar sail cryfder, gweithio gyda phartneriaid i wella'r 'system gyfan', a chefnogi ein gweithlu. Ers blynyddoedd lawer, deallwyd y gall gweithio yn y modd hwn arwain at lai o ddibyniaeth ar wasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynwyd i lawer o unigolion a defnyddio gwasanaethau statudol yn fwy effeithiol a chost-effeithiol. Hefyd, dangoswyd mewn adroddiadau monitro cyllideb ac alldro bod perfformiad ariannol y gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn ddibynnol iawn ar gyllid grant tymor byr sy'n gwrthbwyso diffygion mewn cyllidebau craidd i ddiwallu anghenion y boblogaeth sy'n agored i niwed. Er bod y Gyfarwyddiaeth yn parhau i ddatblygu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau, a bod hyn yn cynnwys gwell cymorth a chanlyniadau drwy atal, ymyrraeth gynnar a gwasanaethau llesiant, mae hyn yn fwy heriol nag erioed o'r blaen gyda chynnydd o ran maint a chymhlethdod. Gweithredir cynlluniau strategol tair blynedd ar gyfer plant a theuluoedd ac oedolion a gofalwyr sy'n arwain at fwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu ac integreiddio gwasanaethau ataliol yn well sy'n lleihau'r galw statudol. Mae'r ymarfer yn canolbwyntio ar gryfderau a'r hyn y gall pobl ei wneud, yn hytrach na model diffyg. Fodd bynnag, mae poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn tyfu'n gyflym, y twf cyflymaf ond dau ymhlith unrhyw Awdurdod Lleol yng Nghymru, ac mae hyn yn golygu bod nifer y bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth yn cynyddu hefyd. Ni ellir atal yr holl anghenion gofal a chymorth ac mae'n bosibl y bydd gan y rhai sydd ag anghenion cymwys ystod o gydafiachedd a chymhlethdodau sy'n gofyn am lefelau uwch o gymorth. Hefyd, mae her sylweddol ar 'ochr cyflenwi' gofal cymdeithasol mewn cysylltiad ag effaith costau cyflog cynyddol a chostau nad ydynt ar gyflogau ar y broses o ddarparu maint ac ansawdd y gofal sydd ei angen. Mae gan y Cyngor swyddogaeth comisiynu cadarn ac effeithiol sy'n sicrhau gwerth ac ansawdd gorau y gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Cymeradwyodd y Cyngor gynllun cynaliadwyedd tair blynedd ar gyfer plant a theuluoedd ym mis Medi 2023. Gwnaed cynnydd da ar y camau gweithredu a nodir yn y cynllun, gan gyflawni gostyngiad sylweddol yn y niferoedd sy'n gysylltiedig â gweithlu asiantaeth, ymgorffori Signs of Safety fel model ymarfer ar gyfer gwaith cymdeithasol a gostyngiadau cynaliadwy canlyniadol yn nifer y plant sy'n ddarostyngedig i gofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant a niferoedd y plant sydd wedi bod mewn gofal. Mae heriau o hyd: mae niferoedd y cysylltiadau â gofal cymdeithasol i blant wedi parhau i gynyddu'n esbonyddol y llynedd ac mae anghenion y plant sydd wedi bod mewn gofal yn fwy cymhleth ac yn gofyn am lefelau uwch o ofal a chymorth. Bu gostyngiad yn nifer y gofalwyr maeth mewnol hefyd. Gwnaed cynnydd da o ran datblygu darpariaeth preswyl mewnol sy'n lliniaru'r angen i letya plant mewn lleoliadau nad ydynt wedi eu cofrestru. Mae heriau lleoli yn arwain at bwysau cost sylweddol i'r Cyngor oherwydd eu bod yn arfer costio mwy na darparwyr cofrestredig ac felly maent yn arwain at wariant uwch i'r Cyngor. Mae strategaeth comisiynu lleoliadau a ddatblygwyd ar gais Llywodraeth Cymru yn nodi bylchau buddsoddi cyfalaf a refeniw fel y gall y Cyngor ddatblygu darpariaeth nid-er-elw sy'n ddigonol i sicrhau ei fod yn meddu ar ddigon o arian i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol newydd i ddileu elw o ofal cymdeithasol plant.

Mae maint a chymhlethdod yr angen am wasanaethau gofal cymdeithasol statudol sydd ar y boblogaeth sy'n agored i niwed yn y fwrdeistref sirol yn faes pwysau arall. Datblygwyd cynllun strategol tair blynedd, 'Adeiladu ar Gryfderau, Gwella Bywydau - Cynllun Tair Blynedd ar gyfer Gofal Cynaliadwy a Chefnogaeth i Oedolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr' sy'n nodi'r model gweithredu, y cynllun gweithlu, y model ymarfer a'r dull atal a llesiant o gefnogi pobl sy'n agored i niwed yn ataliol i fyw'n dda mor annibynnol â phosibl. Mae'r ymarfer yn dal i fod yn seiliedig ar gryfder a chymhwysir meini prawf cymhwysedd yn drylwyr yn y gwasanaethau i oedolion. Mae'r cynllun hwn yn ceisio rheoli a lliniaru, gymaint â phosibl, y pwysau gwasanaeth ac ariannol yn y gwasanaeth. Mae'r pwysau'n enwedig o amlwg yn y gwasanaethau anabledd dysgu, y gwasanaethau iechyd meddwl a'r gwasanaethau ar gyferpobl hŵn. Mae cynllun trawsnewid anabledd dysgu a ddatblygwyd ac mae camau gweithredu sy'n mynd rhagddynt drwy raglen i sicrhau bod pecynnau gofal y maint a'r pris cywir ac i drawsnewid gweithgareddau yn ystod y dydd. Mae gwaith wedi mynd rhagddo i ailosod y gwasanaeth ailalluogi ac i leihau'n sylweddol nifer y bobl sy'n symud ymlaen i becyn gofal a chymorth hirdymor yn y cartref nad ydynt wedi cael y cyfle i fod mor annibynnol â phosibl ac i sicrhau bod y pecyn gofal y maint cywir, cyn dechrau gwasanaeth hirdymor.

Mae'r costau ar yr ochr gyflenwi ar gyfer y darparwyr gofal a gomisiynwyd (cartref, preswyl a nyrsio) mewn cysylltiad â chwyddiant (mae bwyd a thanwydd yn enwedig o ardrawol), a'r angen i gynyddu cyflogau staff yn unol â chynnydd cyflog byw gwirioneddol, wedi golygu bod rhai cynghorau wedi adrodd eu bod wedi gorfod edrych ar gymhwyso cynnydd cyffredinol yn eu ffioedd yn ystod y llynedd. Ledled y DU, mae nifer bach o ddarparwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol ac mae posibilrwydd y bydd gwasanaethau i oedolion a phlant yn gadael y farchnad, a fydd yn rhoi rhagor o bwysau ar gyllidebau y Cyngor, oherwydd bydd y Cyngor bob amser yn ddarparwr rhwyd ddiogelwch mewn amgylchiadau o'r fath.

Mae'r gwasanaethau atal a llesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn arloesol ac maent yn arwain y sector. Mae'r bartneriaeth ag ymddiriedolaeth hamdden Halo wedi cyflawni arbedion sylweddol ers iddi gael ei sefydlu. Cytunodd y Cabinet i estyn y contract er mwyn cyflawni gwell gwerth am arian ac archwilio model gweithredu asiantaeth, a ddylai arwain at gynnydd mewn cynaliadwyedd hefyd. Mae dewisiadau ar gyfer ailfodelu'r gwasanaethau a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn cael eu harchwilio.

Y strategaeth ar gyfer y blynyddoedd nesaf yw ymgorffori arferion sy'n seiliedig ar gryfder a chefnogi unigolion a theuluoedd i fyw eu bywyd gorau, gan ailfodelu'r ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn darparu gwasanaethau a dulliau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n galluogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl a theuluoedd i aros gyda'i gilydd gyda chymorth wedi ei dargedu yn ôl yr angen, gan hybu strategaethau comisiynu a chynlluniau gweithlu sy'n sicrhau bod y person cywir yn darparu'r ymyrraeth a'r cymorth cywir yn y ffordd mwyaf amserol ac ataliol. Mae model ymarfer Signs of Safety mewn gofal cymdeithasol i blant, ac ymarfer sy'n seiliedig ar gryfder sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau mewn gofal cymdeithasol i oedolion, yn darparu'r sail i 'wneud y peth iawn', sef y ffordd mwyaf cost-effeithiol o weithredu yn ddi-ffael. Mae angen deall ac adlewyrchu'r cynnydd mewn angen a chymhlethdod gan blant ac oedolion sy'n agored i niwed wrth drawsnewid gwasanaeth yn ogystal â chynllunio ariannol cydnaws a fynegir trwy gynlluniau cynaliadwyedd. Mae'r buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau atal a llesiant yn helpu i liniaru'r angen am rai gwasanaethau gofal cymdeithasol ac i gefnogi rhagor o bobl i fyw'n dda ac mor annibynnol â phosibl.

3.4.2.1 **Gwasanaethau cymdeithasol a llesiant: gwasanaethau a ddarperir**

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---:|---|---:|
| | **Gofal Cymdeithasol i Oedolion** | |
| 28,480,300 | Pobl Hŷn | 31,216,270 |
| 5,925,800 | Anabledd Corfforol Oedolion / Nam ar y Synhwyrau | 4,997,810 |
| 27,281,090 | Anableddau Dysgu Oedolion | 29,615,540 |
| 6,065,510 | Anghenion Iechyd Meddwl Oedolion | 6,385,280 |
| 139,190 | Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl | 155,080 |
| 4,637,190 | Asesu a Rheoli Gofal | 4,042,520 |
| 4,622,610 | Rheoli Llesiant, Gweinyddu Canolog a Hyfforddiant | 5,584,020 |
| **77,151,690** | **Is-gyfanswm** | **81,996,520** |
| | **Atal a Llesiant** | |
| 5,861,830 | Hamdden a Chwaraeon | 6,160,980 |
| **5,861,830** | **Is-gyfanswm** | **6,160,980** |
| | **Gwasanaethau Plant** | |
| 32,895,480 | Gwasanaethau Plant | 36,079,500 |
| **32,895,480** | **Is-gyfanswm** | **36,079,500** |
| | | |
| **115,909,000** | **Cyfanswm: Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** | **124,237,000** |

3.4.2.2 **Cyllideb gwasanaethau cymdeithasol a llesiant: math o wariant**

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 609,780 | Prif Swyddogion | 616,690 |
| 52,061,720 | Swyddogion | 53,609,730 |
| 351,390 | Treuliau Gweithwyr Anuniongyrchol | 355,390 |
| 46,390 | Gweithio Oddi Ar y Gyflogres (IR35) | 33,630 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 416,890 | Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 419,090 |
| 43,190 | Costau Ynni | 43,190 |
| 272,700 | Rhenti | 463,200 |
| 16,970 | Ardrethi Busnes / Y Dreth Gyngor | 26,570 |
| 16,950 | Gwasanaethau Dŵr | 16,950 |
| 31,650 | Cyflenwadau Domestig a Glanhau | 33,000 |
| 53,930 | Costau Adeiladau a Rennir | 53,930 |
| 143,850 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 191,480 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 58,540 | Costau Trafnidiaeth Uniongyrchol | 59,820 |
| 204,110 | Llogi Gwasanaethau Fflyd | 219,120 |
| 197,730 | Llogi a Phrydlesu Cerbydau | 195,730 |
| 21,230 | Treuliau Teithio | 4,190 |
| 2,500 | Yswiriant Trafnidiaeth | 2,500 |
| 448,530 | Lwfans Ceir | 447,060 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 703,480 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 618,200 |
| 568,580 | Arlwyo | 354,470 |
| 19,650 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 19,650 |
| 82,860 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu ac ati. | 68,760 |
| 30,000 | Hysbysebu | 30,000 |
| 567,520 | Gwasanaethau a Ddefnyddiwyd a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill gan gynnwys rheolaeth chwaraeon | 516,860 |
| 907,420 | Gwasanaethau a Ddefnyddir a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 974,250 |
| 180,900 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 140,310 |
| 86,970 | Cyflenwadau a Gwasanaethau Amrywiol | 36,570 |

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (parhad) | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---:|---|---:|
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 3,511,400 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 3,918,300 |
| 8,488,840 | Sefydliadau Gwirfoddol | 9,683,660 |
| 59,755,120 | Prynu Pecynnau Gofal (Allanol) / Ffioedd Rheoli ar gyfer Hamdden a Diwylliant | 65,658,160 |
| 5,661,760 | Maethu, Mabwysiadu, Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig | 5,731,760 |
| 214,070 | Plant sy'n Derbyn Gofal, Gofal a Thaliadau Cymorth | 214,070 |
| 7,916,840 | Taliadau Uniongyrchol | 8,150,410 |
| | **Costau Ariannu Cyfalaf** | |
| 145,000 | Ad-daliadau Benthyca Darbodus | 142,590 |
| **143,835,960** | **Cyfanswm Gwariant** | **153,049,290** |
| | **Incwm** | |
| (6,195,930) | Incwm | (5,351,530) |
| (8,072,990) | Grantiau | (8,912,450) |
| (12,998,450) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (14,162,890) |
| (136,810) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (132,250) |
| (522,780) | Ailgodi Tâl i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (253,170) |
| **(27,926,960)** | **Cyfanswm Incwm** | **(28,812,290)** |
| | | |
| **115,909,000** | **Cyfanswm: Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** | **124,237,000** |

### 3.4.3 **Trosolwg o gymunedau**

#### 3.4.3.1 **Tir y Cyhoedd**

Mae gwaith y Cyngor ar dir y cyhoedd yn cael effaith uniongyrchol a gweladwy ar bawb. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith i gynnal priffyrdd, parciau a mannau agored, i lanhau ein strydoedd, ac i gasglu a gwaredu ein gwastraff. Yn 2026-27, mae'r Cyngor yn debygol o dderbyn oddeutu £3.5 miliwn o gyllid grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau tir y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau gwastraff, trafnidiaeth gyhoeddus, hawliau tramwy a diogelwch ar y ffyrdd.

Oddeutu £28.5 miliwn yw'r gyllideb net cyffredinol y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gwario ar wasanaethau tir y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys penodi i swydd Pennaeth Gwasanaeth newydd er mwyn cynyddu'r capasiti rheoli yn sylweddol yn y maes hwn o'r Gyfarwyddiaeth. Yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r Gyfarwyddiaeth wedi bod yn destun pwysau cyllidebol mawr, ac mae hyn wedi arwain at gyflwyno modelau cyflawni amgen sydd wedi hybu cynhyrchiant, yn ogystal â dulliau cydweithredol sydd wedi cynyddu effeithlonrwydd a gwydnwch gwasanaethau. Fodd bynnag, bu buddsoddiad sylweddol yn y maes gwasanaeth hwn yn 2026-27. Mae hyn yn cynnwys dyraniad o £1.5 miliwn tuag at sefydlu Tîm "Tir Cyhoeddus" parhaol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd y tîm hwn yn ymgymryd â gwaith tir y cyhoedd pwrpasol i wella cymdogaethau lleol yn weladwy gan gynnwys glanhau, tirlunio a phlannu a chael gwared ar ardaloedd annymunol gan gynnwys tipio anghyfreithlon. Mae buddsoddiadau eraill sydd wedi cynyddu eleni yn y swm cyfalaf a ddyrannir ar gyfer ailwynebu ffyrdd, a fydd yn £4.68 miliwn yn 2026-27.  Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol mewn seilwaith ffyrdd ac mae'n rhan o'r £15.32 miliwn sydd wedi ei fuddsoddi mewn Priffyrdd yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae'r Cyngor yn dod â'i Wasanaethau Gwastraff yn fewnol eto ym mis Gorffennaf 2027 ac mae bellach yn y broses o drosglwyddo'r gwasanaethau hynny oddi wrth ddarparwr masnachol allanol Plan B Environmental Services. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi oddeutu £8 miliwn o gyfalaf mewn cerbydau gwastraff newydd gan gynnwys Cerbydau Casglu Sbwriel a Fflyd Ategol. Mae'r Cyngor hefyd yn buddsoddi dros £1 miliwn mewn meysydd gwasanaethau gwastraff eraill er mwyn sicrhau trosglwyddiad di-dor i'r Cyngor.  Mae pob Awdurdod Lleol yn y DU bellach yn derbyn grant amgylcheddol blynyddol o'r enw Grant Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig (EPR).  Cyllid yw hwn a delir i gwmpasu costau ymdrin â gwastraff deunydd pacio ac a gesglir gan Fusnesau fel polisi amgylcheddol ledled y DU yn seiliedig ar yr egwyddor "llygrydd yn talu".  Derbyniodd y Cyngor £3.9 miliwn yn 2025-26 a bydd y swm grant hwn yn £2.5 miliwn yn 2026-27. Bydd hyn yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau gwastraff, gan gynnwys gwelliannau i'r Depos i sicrhau bod deunyddiau ailgylchu yn cael eu sortio a'u prosesu'n effeithlon. Pen-y-bont ar Ogwr yw un o'r awdurdodau gwastraff sy'n perfformio orau yng Nghymru, gyda chyfraddau ailgylchu dros 73%. Bu gostyngiad sylweddol ym maint ein gwastraff gweddilliol y disgwylir iddo fod o fudd i'r Cyngor yn ariannol dros amser, yn ddibynnol ar amodau contractiol gyda'n trefniadau gwaredu. Fodd bynnag, mae pob Cyngor wedi gweld mwy o wastraff domestig cyffredinol oherwydd y nifer uchel o bobl sy'n parhau i weithio gartref. Trafodwyd trefniadau gweithredu newydd am gost is yn y Ganolfan Adfer Deunyddiau ac Ynni (MREC) ac mae cytundeb gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a wnaed ar gyfer gwaredu gwastraff yn y dyfodol tan 2030 neu hyd nes y daw cyfleuster rhanbarthol ar-lein. Rydym yn disgwyl gwario oddeutu £11 miliwn ar gasglu a gwaredu gwastraff yn 2026-27.

Strategaeth y Cyngor yw cadw a chynnal y gwasanaethau cyhoeddus pwysicaf yn y maes hwn gan sbarduno hyd yn oed mwy o effeithlonrwydd.  Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu ffyrdd amgen o ddarparu a chynnal gwasanaethau, gan gynnwys cynnydd mewn cydweithrediad a chydweithrediad mwy effeithiol ac annog eraill i weithio gyda ni neu dderbyn cyfrifoldeb uniongyrchol am wasanaethau mewn rhai achosion. Bydd y Cyngor yn parhau i fabwysiadu dull hyblyg o drosglwyddo asedau cymunedol yn ystod 2026-27, gan ddefnyddio proses trosglwyddo asedau cymunedol symlach, a sicrhau bod cyngor priodol a buddsoddiad cyfalaf (o'r gronfa trosglwyddo asedau cymunedol yn y rhaglen gyfalaf) a chymorth refeniw blaenorol (o'r gronfa cymorth i glybiau chwaraeon) ar gael. Mae'r Cyngor wedi cyflawni arbedion o drosglwyddo'r asedau hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae Cronfa Effaith Balchder Bro (PIPIF) Llywodraeth y DU yn grant arall a fydd yn cael effaith ar gymunedau yn ystod y flwyddyn nesaf. Derbyniodd y Cyngor £3 miliwn o'r cyllid hwn i'w gwario ar wella cyfleusterau cymunedol, mannau agored cyhoeddus a'n strydoedd mawr a'n canol trefi erbyn diwedd mis Mawrth 2027. Lansiwyd cynllun grant cyfalaf PIPIF ym mis Chwefror 2026, a rhagwelir y bydd dros 40 o grantiau, yn amrywio rhwng 3,000 a bron i 300,000 yn cael eu darparu i sefydliadau ledled ein Sir i wneud gwelliannau gweladwy a hirdymor i gyfleusterau cymunedol gwerthfawr.

3.4.3.2 **Cefnogi'r economi**

Er bod hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor, mae gwasanaethau megis adfywio a datblygu economaidd yn wasanaethau dewisol. Mae'r Cyngor wedi cyflawni hyn o'r blaen drwy gyflogi llai, ond mwy o staff medrus iawn, a chanolbwyntio'r gweithgarwch yn gulach ar feysydd blaenoriaeth er mwyn cynyddu'r effaith gymaint â phosibl. Fodd bynnag, bydd hyn yn newid yn 2026-27 pan ychwanegir tair swydd swyddog ychwanegol yn yr Ardal Adfywio. Mae hyn mewn ymateb i'r Cyngor yn prynu Canolfan Siopa Rhiw am £5.3 miliwn ym mis Mawrth 2026. Bydd y pryniant hwn, gyda chymorth grant o £2.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru, yn gatalydd ar gyfer adfywio canol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd gwaith dylunio manwl ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol yn cael ei wneud yn awr, gydag uchelgais i ailddatblygu'r safle hwn at ddefnydd cymysg ar gyfer manwerthu, defnydd masnachol, hamdden, tai a marchnad newydd ar gyfer Canol y Dref, dros y pum mlynedd nesaf.

Yn y dyfodol, byddwn yn parhau i gydweithredu ar sail ranbarthol gyda'r naw Cyngor arall sy'n ffurfio Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn awr ei bod wedi trawsnewid yn Gyd-bwyllgor Corfforedig statudol. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig gyfrifoldeb am ddatblygu rhanbarthol ac yn benodol meysydd trafnidiaeth strategol, datblygu economaidd rhanbarthol a chynllunio strategol. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn rhanbarthol a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddeall sut y bydd cyfrifoldebau yn cael eu rhannu rhwng y rhanbarth ac awdurdodau lleol i sicrhau'r canlyniadau mwyaf effeithiol yn gyffredinol. Creodd y Fargen Ddinesig gronfa £1.2 biliwn ar gyfer buddsoddi yn y rhanbarth am 20 mlynedd, ac erbyn hyn bwriad y Cyd-bwyllgor Corfforedig yw parhau â'r gwaith hwn. Bydd hyn yn cynnwys buddsoddiadau hirdymor sy'n canolbwyntio ar godi ffyniant economaidd, cynyddu rhagolygon swyddi a gwella cysylltedd digidol a thrafnidiaeth.

Er mwyn chwarae rhan effeithiol yn y Cyd-bwyllgor Corfforedig, bydd y Cyngor yn cynnal y buddsoddiad presennol cyn belled â phosibl yn ei dimau cynllunio trafnidiaeth, cynllunio gofodol ac adfywio i adlewyrchu'r cyfeiriad teithio hwn. Bydd y Cyngor yn gwario oddeutu £2.5 miliwn y flwyddyn ar redeg y gwasanaethau hyn. Bydd y timau hyn yn sicrhau bod prosiectau adfywio proffil uchel yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus, gan gynnwys y prosiectau adfywio niferus ym Mhorthcawl ac ailddatblygu Ewenny Road ym Maesteg at ddefnydd tai a chyflogaeth, lle mae'r gwaith adfer safle bron â chael ei gwblhau ac yn cael ei ariannu gan Grant Hyfywdra Tai gwerth £3.5 miliwn gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Hefyd, drwy ei raglen Metro, agorwyd cyfleuster bysiau Metrolink Porthcawl gwerth £3.8 miliwn ym mis Tachwedd 2024 ac mae'n gweithredu'n dda.

Pen-y-bont ar Ogwr yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gael Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) cymeradwy, sy'n ddogfen cynllunio strategol pwysig, ers y pandemig. Rhan bwysig o'n proses cynllunio cyllideb yw gwneud yn siŵr bod ganddi adnoddau priodol er mwyn sicrhau bod ein cynllun yn cael ei ymchwilio'n briodol a'i amlygu a'i fod yn nodi'r cynigion cynllun datblygu ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a fydd yn siapio ei dyfodol, gan gynnwys twf tai. Bydd oddeutu £116 miliwn o'r cyfraniadau Adran 106 yn dod o'n CDLl newydd ac mae hyn yn hanfodol ar gyfer darparu seilwaith newydd o ansawdd uchel, megis ffyrdd, ysgolion newydd, tai a chyfleusterau chwarae mewn ardaloedd datblygu yn y Fwrdeistref.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, a fabwysiadodd y Cyngor ym mis Ebrill 2024, bellach yn darparu canllawiau cynllunio tir strategol ar gyfer y Fwrdeistref. Yn fwy penodol, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth fynd ar drywydd datblygiad ein prif drefi, ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys adfywio'r glannau ym Mhorthcawl, lle mae cydsyniad cynllunio amlinellol ar gyfer gwaith ailddatblygu wedi ei gyflwyno a gobeithir y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar hyn erbyn hydref 2026. Mae hyn yn cynnwys datblygiad defnydd cymysg o gartrefi, cyfleusterau masnachol a hamdden gan gynnwys Lido glan y môr, ysgol newydd a mannau agored cyhoeddus sylweddol, er mwyn creu glannau bywiog a chymuned gynaliadwy ym Mhorthcawl ar gyfer cenedlaethau y dyfodol.

Hefyd, mae nifer o'r prif safleoedd tai a ddyrannwyd yn y CDLl yn dechrau ymddangos yn awr ac mae hyn yn ogystal â dod ag amrywiaeth o gartrefi fforddiadwy newydd i'r Sir, a fydd yn gweld buddion cymunedol o'r amrywiaeth o gytundebau Adran 106 a fydd yn cael eu rhoi ar waith.  Mae buddsoddiadau mewn mentrau i wella canol y dref ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn parhau, gan gynnwys prynu canolfan siopa Rhiw fel y soniwyd eisoes. Mae datblygiad Campws Coleg Penybont newydd gwerth £80 miliwn ar gyn-safle gorsaf heddlu yn Ochr Rad, yng nghanol y dref, bellach yn agos at gael ei gwblhau. Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Mai 2024 a rhagwelir y bydd adeilad y coleg wedi ei gwblhau erbyn hydref 2026, gan ddwyn dros 2,000 o fyfyrwyr i ganol Pen-y-bont ar Ogwr.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithredu nifer o raglenni gwaith a ariennir gan grant i gefnogi ein grwpiau sy'n fwyaf agored i niwed a'r rhai sydd bellaf oddi wrth gyflogaeth, gan gynnwys hyfforddiant a sgiliau a rhaglenni cymorth gwaith o dan raglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr. Dyfarnwyd £5.979 miliwn i'r Cyngor o'r Gronfa Twf Lleol, sy'n lleihad sylweddol o'u cymharu â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin y blynyddoedd blaenorol ac mae'n gweithio drwy'r sefyllfa heriol hon ar yr hyn a ystyrir yn flwyddyn o drawsnewid ar gyfer y drefn ariannu newydd hon. Hefyd, mae Prosiect Pafiliwn y Grand, i adfer yn llwyr, ailwampio ac estyn yr adeilad rhestredig hwn, yn mynd rhagddo'n dda.  Ariennir y prosiect hwn yn rhannol gan ddyfarniad o £18 miliwn o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, a chyda'r holl gyllid ar waith, disgwylir bellach y bydd wedi ei gwblhau erbyn diwedd 2027.

### 3.4.3.3 **Cymunedau: gwasanaethau a ddarperir**

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | CYMUNEDAU | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---:|---|---:|
| | **Landlord Corfforaethol** | |
| 88,960 | Rheoli Landlord Corfforaethol | 84,460 |
| 738,020 | Cyfanswm Rheoli Cyfleusterau | 729,650 |
| 2,528,260 | Rheoli Asedau Strategol | 2,694,190 |
| 19,270 | Dylunio a Darparu Cyfalaf | 19,230 |
| 109,000 | Trosglwyddo Asedau Cymunedol | 109,020 |
| **3,483,510** | **Is-gyfanswm** | **3,636,550** |
| | **Rheoli Strategol** | |
| 286,390 | Rheoli Strategol | 284,440 |
| **286,390** | **Is-gyfanswm** | **284,440** |
| | **Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu** | |
| (332,640) | Rheoli Datblygu | (317,640) |
| 1,315,550 | Cynllunio Datblygu | 1,326,400 |
| 95,530 | Rheoli Adeiladu | 102,330 |
| (274,590) | Polisïau a Datblygiad Priffyrdd | (272,670) |
| **803,850** | **Is-gyfanswm** | **838,420** |
| | **Adfywio Strategol** | |
| 116,990 | Cadwraeth a Dylunio | 120,220 |
| 661,420 | Prosiectau a Dulliau Adfywio | 815,610 |
| 140,410 | Cyllid Adfywio ac Ymgysylltu | 141,890 |
| **918,820** | **Is-gyfanswm** | **1,077,720** |

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | CYMUNEDAU (parhad) | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---:|---|---:|
| | **Yr Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd** | |
| 735,420 | Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd | 706,240 |
| 228,850 | Rheoli Cefn Gwlad | 234,950 |
| 466,540 | Cadernid a Thwf Economaidd | 456,980 |
| 78,600 | Cyflogadwyedd a Mentergarwch | 78,420 |
| 76,050 | Gwasanaethau Morol ac Arfordirol | 90,190 |
| **1,585,460** | **Is-gyfanswm** | **1,566,780** |
| | **Strydoedd Glanach a Rheoli Gwastraff** | |
| 304,550 | Gorfodaeth | 333,770 |
| 1,821,370 | Glanhau Arall | 1,896,620 |
| 3,992,280 | Gwaredu Gwastraff | 4,153,190 |
| 7,174,770 | Casglu Gwastraff | 7,778,730 |
| **13,292,970** | **Is-gyfanswm** | **14,162,310** |
| | **Priffyrdd a Mannau Gwyrdd** | |
| 8,985,150 | Priffyrdd | 9,170,280 |
| 183,950 | Gwasanaethau Fflyd | 221,610 |
| 1,318,670 | Traffig a Thrafnidiaeth | 1,329,800 |
| 165,590 | Gwasanaethau Peirianneg | 167,360 |
| 2,729,640 | Parciau, Meysydd Chwarae a Gwasanaethau Profedigaeth | 4,369,730 |
| **13,383,000** | **Is-gyfanswm** | **15,258,780** |
| | | |
| **33,754,000** | **Cyfanswm: Cymunedau** | **36,825,000** |

3.4.3.4 **Cyllideb cymunedau: math o wariant**

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | CYMUNEDAU | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 681,070 | Prif Swyddogion | 880,660 |
| 23,904,250 | Swyddogion | 22,563,980 |
| 367,000 | Staff Asiantaeth | 367,000 |
| 15,220 | Treuliau Gweithwyr Anuniongyrchol | 16,890 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 1,788,820 | Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 1,988,700 |
| 486,990 | Cynnal a Chadw'r Tir | 592,850 |
| 1,043,290 | Costau Ynni | 1,043,290 |
| 446,210 | Rhenti | 442,120 |
| 1,032,940 | Ardrethi Busnes / Y Dreth Gyngor | 1,042,440 |
| 117,290 | Gwasanaethau Dŵr | 117,290 |
| 7,150 | Gosodiadau a Ffitiadau | 7,150 |
| 404,350 | Cyflenwadau Domestig a Glanhau | 450,180 |
| 2,500 | Costau Adeiladau a Rennir | 2,500 |
| 14,050 | Yswiriant Safleoedd | 14,050 |
| 80,350 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 81,390 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 1,074,790 | Costau Trafnidiaeth Uniongyrchol | 1,065,240 |
| 176,870 | Llogi Gwasanaethau Fflyd | 183,550 |
| 6,146,620 | Tocynnau Teithio Consesiynol a Grantiau Trafnidiaeth | 6,286,320 |
| 3,640 | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 9,640 |
| 415,480 | Lwfans Ceir | 423,180 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 2,057,920 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 2,352,230 |
| 7,400 | Arlwyo | 7,400 |
| 29,710 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 28,810 |
| 87,770 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu ac ati. | 49,270 |
| 105,120 | Hysbysebu | 60,040 |
| 813,510 | Grantiau a Thanysgrifiadau | 554,220 |
| 3,940,440 | Gwasanaethau a Ddefnyddir a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 3,905,460 |
| 285,430 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 198,510 |
| 2,150 | Treuliau Staff e.e. ffioedd cynadleddau | 2,150 |
| 948,960 | Cyflenwadau a Gwasanaethau Amrywiol | 246,540 |

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | CYMUNEDAU (parhad) | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---:|---|---:|
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 157,630 | Sefydliadau Gwasanaethau Uniongyrchol (DLO) | 241,270 |
| 252,270 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 175,720 |
| 101,320 | Sefydliadau Gwirfoddol | 101,320 |
| 20,622,760 | Contractwyr | 19,276,650 |
| 1,047,810 | Priffyrdd - Strwythurol | 1,094,120 |
| 80,700 | Priffyrdd - Cylchol | 82,830 |
| 172,630 | Priffyrdd - Diogelwch a Chymhorthion | 172,630 |
| 306,150 | Priffyrdd - Cynnal a Chadw'r Gaeaf | 311,750 |
| 1,231,750 | Priffyrdd - Goleuadau Stryd | 1,231,750 |
| 190,220 | Priffyrdd - Arolygon Technegol | 70,220 |
| | **Gwasanaethau Cymorth** | |
| 25,000 | Gweinyddiaeth Adrannol | 25,000 |
| | **Costau Ariannu Cyfalaf** | |
| 1,897,970 | Ad-daliadau Benthyca Darbodus | 2,331,880 |
| **72,573,500** | **Cyfanswm Gwariant** | **70,098,190** |
| | **Incwm** | |
| (16,240,530) | Grantiau | (8,243,130) |
| (224,900) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (296,520) |
| (14,672,410) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (15,366,450) |
| (4,881,350) | Ailgodi Tâl i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (4,946,070) |
| (2,800,310) | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | (4,421,020) |
| **(38,819,500)** | **Cyfanswm Incwm** | **(33,273,190)** |
| | | |
| **33,754,000** | **Cyfanswm: Cymunedau** | **36,825,000** |

### 3.4.4 **Trosolwg y Prif Weithredwr**

3.4.4.1 Mae'r maes gwasanaeth yn chwarae swyddogaeth allweddol gan weithredu fel darparwr gwasanaethau rheng flaen (e.e. y Dreth Gyngor, Budd-daliadau, Digartrefedd a Thai a gwasanaethau i gwsmeriaid) ac fel darparwr gwasanaethau cymorth mewnol ar draws y Cyngor. Mae un toriad arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer 2026-27 sy'n ymwneud â'r gwasanaeth teledu cylch cyfyng.

Ymgymerir â'r swyddogaethau canlynol yn y maes gwasanaeth:

- **Cyllid**
  Mae gan y Cyngor dîm canolog sy'n rheoli holl reolaeth ariannol y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys cyngor strategol lefel uchel, cyfrifon y Cyngor, monitro'r perfformiad ariannol a chefnogi'r broses o oruchwylio a rheoli cyllid y Cyngor. Mae'r gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol penodol sy'n sicrhau tryloywder ac atebolrwydd yn y modd y defnyddir arian cyhoeddus, er enghraifft wrth gynhyrchu cyfrifon sydd wedyn yn cael eu harchwilio ac wrth gyflawni gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau.

  Bydd yr adran gyllid yn ceisio diwygio a gwella prosesau busnes ymhellach, er mwyn gwella effeithlonrwydd yn ogystal â chydymffurfio â newidiadau deddfwriaethol.

- **Archwilio Mewnol**
  Darperir ein Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol gan wasanaeth ar y cyd yr ydym yn ei rannu â Chynghorau Bro Morgannwg a Merthyr Tudful. Mae'r gwasanaeth yn cynnal gwiriadau ac ymchwiliadau arferol i sicrhau bod y Cyngor yn cynnal llywodraethu da – yn enwedig fel y mae'n ymwneud ag atebolrwydd priodol am arian ac adnoddau eraill. Bydd y gwasanaeth hefyd yn ymgymryd â darnau arbenigol o waith untro os bydd angen.

- **Adnoddau Dynol (AD) a Datblygiad Sefydliadol (OD)**
  Gyda thros 6,000 o gyflogeion gan gynnwys ysgolion, mae angen gwasanaeth adnoddau dynol pwrpasol ar y Cyngor. Prif swyddogaeth y gwasanaeth yw darparu cyngor proffesiynol, canllawiau a chymorth i reolwyr a staff ar ystod eang o faterion Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol yn ogystal â darparu gwasanaethau Adnoddau Dynol ar gyfer talu cyflogau, pensiwn, contractau a gweinyddu absenoldeb. Mae gwasanaethau eraill yn cynnwys hyfforddi a datblygu, recriwtio a chadw, datblygu sgiliau cyflogeion a 'datblygu eich hun' drwy ein cynlluniau Graddedigion a Phrentisiaethau.

  Rydym yn cynnal trefniadau cysylltiadau cyflogeion cadarnhaol a thryloyw drwy weithio'n agos gyda'n hundebau llafur cydnabyddedig.

  Ar y cyfan, mae'r materion gweithlu sylweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am y gwasanaethau hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cytunwyd ar rywfaint o gyllid ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn 2026-27.

- **TGCh**
  Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn awtomeiddio a digideiddio gwasanaethau ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi meysydd blaenoriaeth drwy'r Rhaglen Trawsnewid Digidol. Bydd hyn yn helpu i gyflawni arbedion yn y blynyddoedd i ddod, drwy ddatblygu a digideiddio prosesau sy'n ddwys o ran gwybodaeth, rhyddhau capasiti a gwella effeithlonrwydd y prosesau. Byddwn hefyd yn archwilio'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial ar draws nifer o wasanaethau, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n effeithlon, pan fo hynny'n briodol.

  Mae'r gwasanaeth TGCh yn cynorthwyo'r Rhaglen Trawsnewid Digidol, gan gefnogi newidiadau ar draws amrywiaeth o wasanaethau sydd yn eu tro yn caniatáu arbedion neu welliannau drwy weithio mwy hyblyg neu ffyrdd newydd o gael gafael ar wasanaethau. Mae'r Cyngor yn gwario oddeutu £4.4 miliwn ar ei ddarpariaeth gwasanaethau TGCh i gefnogi prif weithgareddau y Cyngor ac ysgolion. Mae'r gwasanaeth TGCh wedi canolbwyntio ar ddatblygu staff drwy'r rhaglen brentisiaeth, gan weithio gydag Adnoddau Dynol i ddatblygu sgiliau ac i'w gwneud yn bosibl i ddringo ysgol gyrfa yn fewnol.

- **Tai a Digartrefedd**
  Cydnabyddir yn eang fod tai yn benderfynydd iechyd corfforol a meddyliol ac mae'r amrywiaeth o weithgareddau a gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Tai yn atgyfnerthu'r cysylltiad hwn. Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 yr angen i symud at ddull mwy ataliol o ymdrin â digartrefedd ac mae hyn yn un o egwyddorion craidd y gwaith a wneir. Mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau canllawiau newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad ag ymgyflwyniadau digartrefedd ac mae eisoes wedi cydnabod bod y rhain yn bwysau cyllidebol i'r Cyngor, gyda'r nod o ddarparu llety dros dro i bobl mewn angen, er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n ddigartref ar y stryd.

  Nid oes gan y Cyngor unrhyw stoc dai ei hun ond mae'n cadw nifer o swyddogaethau statudol sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag anghenion tai a brwydro yn erbyn digartrefedd. Mae'r Cyngor wedi prynu nifer o dai amlfeddiannaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf a ddefnyddir fel Llety Dros Dro ar gyfer unigolion yr aseswyd bod angen cymorth digartrefedd arnynt. Mae hyn wedi darparu gwell llety i'r unigolion hynny a lleihau'r gwariant yn y maes gwasanaeth hwn yn 2025-26.

  Mae nifer o heriau allweddol sy'n wynebu'r cyngor o ran darparu gwasanaethau tai a digartrefedd. Mae nifer y ceisiadau am lety dros dro oherwydd digartrefedd yn cynyddu bob blwyddyn. Ar ddiwedd 2019-20, roedd y Cyngor yn darparu llety dros dro i 83 o aelwydydd. Ar ddiwedd mis Mawrth 2026, mae hyn wedi cynyddu i 296 o aelwydydd sy'n gynnydd o 250% dros y cyfnod hwn. Yn aml, mae gan unigolion sy'n cael eu lletya mewn llety dros dro anghenion cymorth sylweddol mewn cysylltiad â mynd i'r afael â'u hangen am dai neu i gynnal llety. Amcangyfrifir bod angen rhywfaint o gymorth mewn mwy na dau faes ar oddeutu 47% o'r aelwydydd sydd mewn llety dros dro. Mae'r cynnydd mewn lleoliadau llety dros dro wedi arwain at bwysau cost sylweddol i'r Cyngor.

  Bydd yr Adran Dai yn parhau i fabwysiadu dull strategol o atal digartrefedd ac o ddarparu ar gyfer pobl ddigartref drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gefnogi datblygiadau tai newydd a bydd yr Adran Dai yn parhau i ddefnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol yn effeithiol er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol.

- **Gwasanaethau Cyfreithiol**
  Mae angen i'r Cyngor gynnal cymorth cyfreithiol effeithiol i'w holl wasanaethau. Ar adeg pan fo'r Cyngor yn ceisio trawsnewid gwasanaethau, mae'n bwysig cyflawni'r newidiadau hyn yn gyfreithlon. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cefnogi gwasanaethau rheng flaen megis Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn uniongyrchol, ac fe'i darperir gan gymysgedd o staff mewnol parhaol ac arbenigedd allanol yn ôl yr angen. Mae bron i hanner ein tîm cyfreithiol mewnol yn canolbwyntio'n benodol ar achosion amddiffyn plant. Mae'r achosion hyn wedi cynyddu mewn nifer a chymhlethdod yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cymeradwywyd cyllideb ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn 2026-27.

- **Gwasanaethau Democrataidd**
  Sefydliad democrataidd gyda 51 o aelodau etholedig (Cynghorwyr) yw'r Cyngor. Mae'n gwneud penderfyniadau, yn pennu cyfeiriad polisïau ac yn goruchwylio perfformiad cyffredinol y Cyngor. Pennir nifer yr aelodau etholedig ym mhob awdurdod yn annibynnol. Mae eu taliad cydnabyddiaeth hefyd yn cael ei bennu gan banel annibynnol. Mae'r tîm Gwasanaethau Democrataidd yn cefnogi'r holl Aelodau ac yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.

- **Caffael**
  Mae gan y Cyngor dîm canolog sy'n darparu cymorth caffael ar draws yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir gennym. Mae'n hanfodol caffael yn effeithiol er mwyn sicrhau gwerth da am arian ar draws y Cyngor. Mae'r tîm canolog yn gweithio gyda gwasanaethau er mwyn gweithredu effeithlonrwydd ar draws yr holl gorfforaeth pan fo hynny'n briodol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Caffael Corfforaethol sy'n cefnogi nifer o flaenoriaethau corfforaethol. Mae cynnydd parhaus o hyd mewn costau nwyddau a gwasanaethau oherwydd pwysau chwyddiant, cynnydd mewn costau tanwydd a phrinder yn y gadwyn gyflenwi. Mae llawer o dendrau yn cael eu dychwelyd yn uwch na'r gyllideb gymeradwy sy'n arwain at waith ychwanegol i ail gynnal y broses.

- **Gwasanaethau Rheoleiddio**
  Gwasanaeth cyfunol â Chynghorau Bro Morgannwg a Dinas Caerdydd yw hwn. Bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn cyfrannu oddeutu £1.8 miliwn ar ei gyfer tuag at grŵp o wasanaethau sy'n cynnwys Safonau Masnach, Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd Anifeiliaid a Thrwyddedu (Alcohol, Gamblo, Diogelwch ar Feysydd Chwaraeon, Tacsis ac ati). Mae'r gwasanaethau hyn i gyd yn sicrhau, mewn gwahanol ffyrdd, fod y cyhoedd yn cael ei amddiffyn. Yn ogystal â chaniatáu arbedion ariannol, mae'r cydweithrediad yn cyflawni mwy o wydnwch yn y gwasanaeth a diogelwch cyhoeddus cryfach ar draws pob un o'r tair ardal Cyngor.

- **Cofrestryddion**
  Mae'r Cyngor yn gweithredu gwasanaeth Cofrestrydd sy'n ymwneud yn bennaf â chofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal seremonïau Partneriaeth Sifil a Dinasyddiaeth ac yn darparu cyfleuster tystysgrifau newydd.

- **Treth y Cyngor a budd-daliadau**
  Yn 2026-27, bydd gan y gwasanaeth drethiant y nod o gasglu £138 miliwn mewn treth gyngor oddi wrth dros 66,000 o aelwydydd ledled y fwrdeistref sirol ar ran y Cyngor, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a'n Cynghorau Tref a Chymuned. Effeithiwyd ar ein cyfraddau casglu dros y blynyddoedd diwethaf, gan bandemig COVID-19 yn gyntaf, ac yna gan yr argyfwng costau byw. Rydym yn benderfynol o adennill y lefel casglu uchel a fodolai cyn 2020, ond rydym yn manteisio ar y cyfle i leihau'r gost o weithredu'r gwasanaeth, drwy gynnig gwasanaethau ar-lein.

  Ariennir budd-daliadau gan lywodraeth ganolog y DU. Y cyngor sy'n gyfrifol am weinyddu Budd-daliadau Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (a ariennir gan y cyngor). Mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau hefyd yn gweinyddu ceisiadau am Grantiau Cyfleusterau Anabl, Prydau Ysgol Am Ddim a Grantiau Gwisg Ysgol Nodedig.

  *Yn dilyn ailstrwythuro corfforaethol, bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu mewn dwy Gyfarwyddiaeth yn 2026/27 – Prif Weithredwyr a Chyfarwyddiaeth newydd, Cyllid a Thrawsnewid. Dangosir cyfanswm y gyllideb ar gyfer y ddwy Gyfarwyddiaeth yn y ddogfen hon a bydd yn cael ei rhannu at ddibenion adrodd yn ystod y flwyddyn.*

### 3.4.4.2 **Prif weithredwr: Gwasanaethau a ddarperir**

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | PRIF WEITHREDWR | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---:|---|---:|
| | **Uned y Prif Weithredwr** | |
| 413,210 | Uned y Prif Weithredwr | 519,500 |
| **413,210** | **Is-gyfanswm** | **519,500** |
| | **Cyllid** | |
| 260,770 | Archwiliad mewnol | 260,770 |
| 3,945,800 | Cyllid | 4,420,730 |
| **4,206,570** | **Is-gyfanswm** | **4,681,500** |
| | **Adnoddau Dynol / Datblygu Sefydliadol** | |
| 1,805,220 | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 2,154,520 |
| **1,805,220** | **Is-gyfanswm** | **2,154,520** |
| | **Partneriaethau** | |
| 473,930 | Trawsnewid | 1,938,550 |
| 1,734,330 | Gwasanaethau Cwsmeriaid ac Ymgysylltu | 1,667,740 |
| **2,208,260** | **Is-gyfanswm** | **3,606,290** |

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | PRIF WEITHREDWR (parhad) | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---|---|---|
| | **Cyfreithiol, Democrataidd a Rheoleiddiol** | |
| 2,377,450 | Gwasanaethau Cyfreithiol | 2,600,080 |
| 1,903,940 | Gwasanaethau Democrataidd | 2,103,220 |
| 302,910 | Caffael | 355,630 |
| 1,390,940 | Gwasanaethau Rheoleiddio | 1,421,430 |
| **5,975,240** | **Is-gyfanswm** | **6,480,360** |
| | **TGCh** | |
| 4,096,350 | TGCh | 5,130,160 |
| **4,096,350** | **Is-gyfanswm** | **5,130,160** |
| | **Etholiadau** | |
| 182,370 | Etholiadau | 185,050 |
| **182,370** | **Is-gyfanswm** | **185,050** |
| | **Tai a Digartrefedd** | |
| 4,801,100 | Tai ac Adfywio Cymunedol | 4,979,770 |
| **4,801,100** | **Is-gyfanswm** | **4,979,770** |
| | **Cymorth Busnes** | |
| 1,126,680 | Uned Fusnes | 986,850 |
| **1,126,680** | **Is-gyfanswm** | **986,850** |
| | | |
| **24,815,000** | **Cyfanswm: Prif Weithredwr** | **28,724,000** |

3.4.4.3 **Cyllideb y Prif Weithredwr: math o warian**

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | PRIF WEITHREDWR | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 195,040 | Prif Weithredwr | 208,840 |
| 421,490 | Prif Swyddogion | 429,600 |
| 18,343,540 | Swyddogion | 20,741,360 |
| 1,486,320 | Aelodau | 1,557,290 |
| 66,000 | Staff Asiantaeth | 79,290 |
| 3,060 | Hyfforddiant Staff | 3,060 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 20,500 | Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 20,500 |
| 12,010 | Costau Ynni | 12,010 |
| 5,400 | Rhenti | 5,400 |
| 2,290 | Ardrethi Busnes / Y Dreth Gyngor | 2,290 |
| 100 | Gwasanaethau Dŵr | 100 |
| 1,070 | Gosodiadau a Ffitiadau | 1,070 |
| 4,080 | Costau Adeiladau a Rennir | 4,080 |
| 15,710 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 15,710 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 59,330 | Costau Rhedeg Cerbydau Uniongyrchol gan Gynnwys Atgyweiriadau a Milltiroedd | 55,820 |
| 22,500 | Llogi a Phrydlesu Cerbydau | 22,500 |
| 7,160 | Treuliau Teithio | 7,160 |
| 19,500 | Lwfans Ceir | 39,980 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 208,640 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 211,780 |
| 910 | Arlwyo | 910 |
| 770 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 770 |
| 221,560 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu ac ati. | 258,830 |
| 43,170 | Hysbysebu | 17,450 |
| 171,200 | Grantiau a Thanysgrifiadau | 184,700 |
| 2,224,080 | Gwasanaethau a Ddefnyddir a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 2,359,620 |
| 3,225,300 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 3,519,170 |
| 1,100 | Treuliau Staff e.e. ffioedd cynadleddau | 1,100 |
| 3,705,700 | Atebion Tai, Meddalwedd a Datblygu | 3,705,700 |
| 134,690 | Hyfforddiant a Gwariant | 135,690 |
| 5,000 | Maer – Cronfa Lletygarwch | 2,500 |

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | PRIF WEITHREDWR (parhad) | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---:|---|---:|
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 2,179,890 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 2,218,890 |
| 194,280 | Sefydliadau Gwirfoddol | 199,320 |
| 6,187,070 | Cefnogi Pobl a Chontractwyr Allanol | 6,187,070 |
| 33,522,230 | Budd-daliadau Tai | 33,655,230 |
| **72,710,690** | **Cyfanswm Gwariant** | **75,864,790** |
| | **Incwm** | |
| (42,923,790) | Grantiau | (42,468,870) |
| (1,338,830) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (1,522,330) |
| (1,302,740) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (1,235,740) |
| (1,715,280) | Ad-daliadau i Gyfarwyddiaethau a Gwasanaethau Eraill | (1,407,550) |
| (615,050) | Trosglwyddiadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | (506,300) |
| **(47,895,690)** | **Cyfanswm Incwm** | **(47,140,790)** |
| | | |
| **24,815,000** | **Cyfanswm: Prif Weithredwr** | **28,724,000** |

### 3.4.5 Cyllidebau ar draws y Cyngor

3.4.5.1 Mae Cyllidebau ar draws y Cyngor yn cynrychioli'r elfennau hynny o wariant sy'n berthnasol i'r Cyngor drwyddo draw ac na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i unrhyw wasanaeth penodol.

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | AR DRAWS Y CYNGOR | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---:|---|---:|
| | **Cyllidebau ar draws y Cyngor** | |
| 5,958,000 | Cyllid Cyfalaf | 5,907,026 |
| 10,958,259 | Ardollau | 11,352,154 |
| 18,552,766 | Gwasanaethau Eraill y Cyngor Cyfan | 18,314,789 |
| 17,054,000 | Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 17,804,000 |
| 1,363,000 | Premiymau Yswiriant | 1,363,000 |
| **53,886,025** | **Cyfanswm: Ar Draws y Cyngor** | **54,740,969** |

3.4.5.2 **Cyllideb ar draws y Cyngor: math o wariant**

| Cyllideb Net 2025/2026 £ | CYLLIDEBAU AR DRAWS Y CYNGOR | Cyllideb Net 2026/2027 £ |
|---:|---|---:|
| | **Cyflogeion** | |
| 430,000 | Cyn-gostau Pensiwn Cyngor Sir Morgannwg Ganol | 430,000 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 420,000 | Cynnal a Chadw Adeiladau | 420,000 |
| 470,000 | Yswiriant Eiddo | 478,270 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 119,000 | Yswiriant Trafnidiaeth | 128,650 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 47,000 | Hysbysebu | 47,000 |
| 285,000 | Ffioedd Mewnol Cynnal a Chadw Adeiladau a Ffioedd Rheoli Hawliadau Yswiriant | 285,000 |
| 17,531,466 | Darpariaethau a gedwir yn ganolog ar gyfer codiadau cyflog a phrisiau a chostau eraill na ellir eu hosgoi | 17,262,759 |
| 204,000 | Rhyddhad Dewisol Ardreth Annomestig Genedlaethol | 204,000 |
| 750,000 | Ardoll Prentisiaethau | 869,000 |
| 441,000 | Premiymau Yswiriant | 453,810 |
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 10,208,259 | Ardollau (gan gynnwys Ardoll y Gwasanaeth Tân) | 10,483,154 |
| | **Taliadau Trosglwyddo** | |
| 17,054,000 | Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 17,804,000 |
| | **Costau Ariannu Cyfalaf** | |
| 5,073,050 | Taliadau Llog | 5,073,050 |
| 2,253,800 | Isafswm Darpariaeth Refeniw | 2,202,826 |
| **55,286,575** | **Cyfanswm Gwariant** | **56,141,519** |
| | **Incwm** | |
| (1,368,850) | Llog | (1,368,850) |
| (31,700) | Ailgodi Tâl i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (31,700) |
| **(1,400,550)** | **Cyfanswm Incwm** | **(1,400,550)** |
| | | |
| **53,886,025** | **Cyfanswm: Gwasanaethau Ar Draws y Cyngor** | **54,740,969** |

# Adran 4

## Cyllideb gyfalaf 2026-27

# Adran 4: Cyllideb gyfalaf 2026-27

## 4.1 Cyllideb gyfalaf 2026-27

4.1.1 Yn ogystal â gwario arian ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor yn gwario arian hefyd ar ddarparu cyfleusterau newydd, gwella asedau a'r seilwaith neu ddarparu grantiau cyfalaf i unigolion a chyrff allanol. Mae'r Gyllideb Gyfalaf yn cynnwys gwariant ar nifer o brosiectau buddsoddi strategol sylweddol yn y fwrdeistref sirol.



Mae prif faes gwariant ar brosiectau cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2026-27 yn cynnwys:

- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Band B)
- Parhau i ailddatblygu Pafiliwn y Grand Porthcawl
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a chynlluniau addasu tai eraill
- Amnewid cerbydau gwastraff / ailgylchu
- Cynnal a chadw priffyrdd

## 4.2 Ariannu'r rhaglen gyfalaf

4.2.1 £121.822 miliwn yw cost ariannu'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2026-27, fel y nodir yn y tabl isod:

| Cyllid | 2026-27 £'M | % |
|---|---|---|
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol - Benthyca â Chymorth | 3.849 | 3.16% |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol - Grant Cyfalaf Cyffredinol | 4.992 | 4.10% |
| Grantiau a Chyfraniadau Allanol | 72.501 | 59.51% |
| Benthyca Darbodus (heb gymorth) | 15.954 | 13.10% |
| Derbyniadau Cyfalaf | 7.887 | 6.47% |
| Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | 16.639 | 13.66% |
| **Cyfanswm Cyllid** | **121.822** | **100** |

## 4.3 Dyraniad y gyllideb gyfalaf

4.3.1 Dyrannwyd y Gyllideb Gyfalaf o £121.822 miliwn fel a ganlyn:

| Meysydd Gwasanaeth | 2026-27 £'M | % |
|---|---|---|
| Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc (Gan gynnwys ysgolion) | 76.046 | 62.44% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant - Cyfleusterau Chwaraeon Cymunedol | 1.500 | 1.23% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant - Plant | 0.500 | 0.41% |
| Cymunedau – Y Gwasanaethau Stryd | 13.440 | 11.03% |
| Cymunedau – Adfywio a Datblygu | 21.968 | 18.03% |
| Cymunedau – Landlord Corfforaethol | 4.231 | 3.47% |
| Prif Weithredwr – TGCh | 0.400 | 0.33% |
| Prif Weithredwr – Tai / Digartrefedd | 2.550 | 2.09% |
| Cyllidebau Cyfalaf Ar Draws y Cyngor | 1.187 | 0.97% |
| **Cyfanswm** | **121.822** | **100** |

# Adran 5

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – ystadegau allweddol

# Adran 5: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – ystadegau allweddol

## 5.1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

5.1.1. Mae'r adran hon yn rhoi manylion yr ystadegau allweddol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | |
|---|---|
| Maint | 96.83 milltir sgwâr |
| Poblogaeth (Amcangyfrif 2024) | 147,530 |
| Aelwydydd | 66,011 |
| Pris Tŷ Cyfartalog | £208,808 (Pen-y-bont ar Ogwr)<br>£214,883 (Cymru)<br>(Mynegai Prisiau Tai Cymru y DU: Rhagfyr 2025) |
| Busnesau Gweithredol | 3,780 ar 14/3/2025 |
| Canran y Boblogaeth sy'n Economaidd Weithgar* | 75.6% (Medi 2025) |



Cynyddodd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr o 146,900 i 147,530, sef symudiad o 630 o bobl rhwng 2023 a 2024.

Ar 30 Mehefin 2024, Pen-y-bont ar Ogwr oedd y chweched ardal awdurdod lleol fwyaf poblog o blith 22 awdurdod lleol Cymru, gyda'r hyn sy'n cyfateb i 588 o bobl fesul cilomedr sgwâr.

Mae twf yn y boblogaeth yn golygu mwy o alw am wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys tai, addysg, gwasanaethau amgylcheddol a gofal cymdeithasol. Mae lefel diweithdra hefyd yn allweddol wrth bennu'r galw am fudd-daliadau a ariennir gan y Cyngor fel gostyngiadau'r dreth gyngor neu gonsesiynau wrth dalu am wasanaethau'r Cyngor.

| Cipolwg ar Ben-y-bont ar Ogwr | |
|---|---|
| **Yr Etholaeth** | |
| Cyfanswm yr Etholwyr ar y Gofrestr (2 Ionawr 2026) | 115,851 |
| **Cynrychiolaeth** | |
| Wardiau | 28 |
| Cynghorwyr | 51 |
| Aelodau Etholaethol y Senedd | 2 |
| Aelodau Rhanbarthol y Senedd | 4 (Gorllewin De Cymru) |
| Aelodau Seneddol | 3 |

## 5.2 Ystadegau gwasanaeth

5.2.1 Mae’r tablau canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaeth ar gyfer Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc:

### Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc


| Poblogaeth disgyblion Ionawr 2025 | Rhifau Disgybl |
|---|---|
| Meithrin (2 - 4 oed) | 1,571 |
| Derbyn (4 - 5 oed) | 1,419 |
| Cynradd Bl 1 – Bl 6 (5 - 11 oed) | 9,396 |
| Uwchradd Bl 7 i Bl 11 (11 - 16 oed) | 8,567 |
| Uwchradd Bl 12 (16 - 17 oed) | 796 |
| Uwchradd Bl 13 (17 - 18 oed) | 663 |
| (18 - 19 oed) | 12 |

Mae gan y Cyngor gyfanswm o 59 o ysgolion (ysgolion babanod, iau, cynradd, uwchradd ac arbennig, cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd) gyda thua 22,424 o ddisgyblion.

| Math o sefydliad addysgol | Nifer | Nifer ar y gofrestr (Ion 2025) |
|---|---|---|
| Ysgolion cynradd (gan gynnwys 2 faban ac 1 iau) | 48 | 12,252 |
| Ysgolion uwchradd | 9 | 9,662 |
| | | |
| Ysgolion ffydd (gan gynnwys uchod) | 6 | 1,832 |
| Ysgolion cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys uchod) | 5 | 1,683 |
| | | |
| Ysgolion arbennig | 2 | 450 |
| Uned cyfeirio disgyblion | 1 | 60 |

5.2.2 Mae'r tablau canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

## Gwariant Refeniw Net - Oedolion sy'n Derbyn Gwasanaethau yn ôl Grŵp Oedran £'000




| Gwasanaethau Plant a Ddarperir | Nifer y Plant** 31 Mawrth 2024 | Nifer y Plant** 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl math o leoliad: | 370 | 333 |
| Yn ôl math o leoliad: | | |
| Lleoliadau maeth | 240 | 219 |
| Wedi'u lleoli i'w mabwysiadu | 10 | 6 |
| Cartrefi Preswyl | 45 | 43 |
| Wedi'u lleoli gyda'u rhieni eu hunain neu gydag unigolyn arall sydd â chyfrifoldeb rhiant | 70 | 59 |
| Byw'n Annibynnol | * | * |
| Arall | * | * |

** Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r pump agosaf. Os oes llai na phump o blant mewn unrhyw grŵp, nid yw'r nifer wirioneddol wedi'i nodi, ac mae'r symbol * wedi'i roi yn lle rhif. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data mis Mawrth 2025 eto.

5.2.3 Mae'r tablau canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau Cymunedau:

## Gwasanaethau ar gyfer Cymunedau

Darperir y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer cymunedau yn y tabl isod:

| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| **Y Gwasanaethau stryd** | |
| Nifer y ceisiadau cynllunio a gafwyd yn 2024-25 | 707 |
| Cyfanswm unedau goleuadau stryd | 19,666 |
| Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul person 2024-25 (2023-24 target 135KG) | 117.76 |
| Canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (rhagolwg 2025-26) (2024-25 73%) | 72% |
| Canran y gwastraff glanhau strydoedd a baratowyd i'w ailgylchu (rhagolwg 2025-26) | 41% |
| **Trafnidiaeth a Pheirianneg** | |
| Hyd ffordd sirol (km) | 104 |
| Hyd ffordd sirol A mewn ardal adeiledig (km) | 52 |
| Hyd ffordd B a C (km) | 139 |
| Hyd ffordd B a C mewn ardal adeiledig (km) | 83 |
| Hyd isffordd â wyneb caled (km) | 548 |
| Hyd is-ffordd â wyneb caled mewn ardal adeiledig (km) | 446 |

5.2.4 Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau'r Prif Weithredwr:

## Prif Weithredwr


| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| **Gwasanaethau Rheoleiddio** | |
| Nifer y Safleoedd Masnachu ym mis Mawrth 2025 | 5,087 |
| Nifer y Safleoedd Bwyd ym mis Mawrth 2025 | 1,604 |
| **Gwasanaethau Cwsmeriaid** | |
| Nifer y cwsmeriaid a gysylltodd â'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid dros y ffôn rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Rhagfyr 2025 | 73,021 |
| Nifer y cwsmeriaid a gysylltodd â'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid drwy e-bost rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Rhagfyr 2025 | 9,794 |
| Nifer y trafodion a gynhaliwyd ar-lein gan gwsmeriaid rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Rhagfyr 2025 | 81,013 |
| **Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd** | |
| Nifer y priodasau a gofrestrwyd rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Rhagfyr 2025 | 506 |
| Nifer y safleoedd priodas newydd sydd wedi'u trwyddedu | 1 |
| Nifer y Trwyddedau Safle newydd a gyhoeddwyd rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Rhagfyr 2025 | 22 |
| Nifer y trwyddedau Personol newydd i werthu alcohol a gyhoeddwyd rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Rhagfyr 2025 | 68 |
| **Adnoddau Dynol** | |
| Gweithlu corfforaethol cyfwerth ag amser llawn ar 31.12.2025 | 2,365.72 |
| Gweithlu ysgolion cyfwerth ag amser llawn ar 31.12.2025 | 2,131.84 |

Nid oes gan y Cyngor unrhyw stoc tai ei hun ond mae'n cadw nifer o swyddogaethau statudol sy'n ymwneud â mynd i'r afael â'r angen am dai ac ymdrin â digartrefedd. Mae'r Cyngor yn parhau i fabwysiadu dull strategol o atal digartrefedd a chynnig darpariaeth ar gyfer pobl ddigartref drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner a gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gefnogi datblygiadau tai newydd.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd 6,285 o aelwydydd a leolwyd mewn llety dros dro ledled Cymru, gostyngiad o 3% o'u cymharu â'r 6,447 o aelwydydd a oedd mewn llety dros dro ddiwedd mis Mawrth 2024. Roedd hyn yn cyfateb i 45.2 fesul pob 10,000 o aelwydydd. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr oedd 261 o aelwydydd, sef cyfradd o 40.9 fesul pob 10,000 o aelwydydd.

Mae’r siart isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am gymorth Tai a Digartrefedd:

## Tai a Digartrefedd 2024-25




Nifer y bobl a oedd yn Cysgu ar y Stryd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 31 Mawrth 2025 oedd 5.

Mae’r ddeddfwriaeth digartrefedd sylfaenol, sef Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn darparu’r sail statudol ar gyfer gweithredu i atal digartrefedd ac i ddarparu cymorth i bobl sydd dan fygythiad o ddigartrefedd neu sy’n ddigartref mewn gwirionedd. Yn fras, mae rhywun o dan fygythiad o ddigartrefedd os yw’n debygol y bydd yn dod yn ddigartref o fewn 56 o ddiwrnodau.

Aseswyd yn 2024-25 bod 289 o aelwydydd yn y fwrdeistref o dan fygythiad o ddigartrefedd. O’r rhain, cwblhawyd 165 (57.2%) o gamau atal digartrefedd llwyddiannus.

Ym mis Ebrill 2020, gosodwyd pedwar pod a gynlluniwyd â’r nod o helpu i gadw pobl sy’n cysgu allan yn ddiogel yn ystod yr achosion coronafeirws mewn lleoliadau dros dro ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Nid oes yr un o’r rheini sy’n dal i gael eu defnyddio.

5.2.5 Mae’r tabl canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau ar draws y cyngor:

## Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau

| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| **Prif Weithredwyr** | |
| Y Dreth Gyngor – Amcangyfrif o nifer yr anheddau y codir tâl arnynt ar 31/12/2025 | 66,308 |
| Y Dreth Gyngor – Tâl Casgladwy Net 2026-27 (Elfen cyngor yn unig) | £111,980,641 |
| Ardrethi Annomestig – Nifer yr eiddo masnachol ar 31/12/2025 | 5,435 |
| Ardrethi Annomestig – Tâl Casgladwy ar 31/12/2025 | £42,941,041 |
| Gwariant Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor 2025-26 ar 1/1/2026 | £17,038,671 |
| Llwyth Achosion Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor ar 1/1/2026 | 12,001 |
| Cyfanswm nifer yr aelwydydd â disgownt person sengl ar 31/12/2025 | 22,729 |
| Nifer yr Hawlwyr Budd-dal Tai ar 17/12/2025 | 4,471 |

# Adran 6

## Geirfa

# Adran 6: Geirfa

## 6.1 Geirfa

**Cyllid allanol cyfun (AEF)**
Cyfanswm y cymorth allanol ar gyfer gwariant refeniw awdurdodau lleol nad yw'n cael ei ariannu o'r dreth gyngor. Mae'n cynnwys grant cynnal refeniw a thaliadau o'r arenillion o ardrethi annomestig a ail-ddosbarthwyd.

**Cyllideb**
Y datganiad sy'n diffinio cynlluniau ariannol y Cyngor dros gyfnod penodol, blwyddyn fel arfer.

**Band D**
Y Dreth Gyngor sydd i fod i gwmpasu'r cartref cyffredin. Mae'n cynnwys eiddo gwerth hyd at £123,000 (prisiad yn seiliedig ar werthoedd eiddo 2003). Asesir eiddo mwy newydd ar yr hyn y byddai'r prisiad wedi bod yn 2003.

**Cyfwerth â Band D**
Nifer yr eiddo band D mewn ardal a fyddai'n codi'r un dreth gyngor â nifer wirioneddol yr eiddo ar bob band. Trosir eiddo i sylfaen sy'n cyfateb ag eiddo band D. Er enghraifft, mae un band H yn cyfateb i ddau eiddo band D, gan fod trethdalwr mewn eiddo band H yn talu dwywaith cymaint o dreth gyngor.

**Gwariant cyfalaf**
Nodir y diffiniad at ddibenion cyfalaf yn adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, sy'n nodi bod rhaid cyfalafu gwariant yn unol ag arferion priodol.

Bydd y gwariant y gellir ei gyfalafu yn cynnwys:

1. Caffael, adfer, gwella neu osod tir;
2. Caffael, adeiladu, paratoi, gwella neu ailwneud ffyrdd, adeiladau a strwythurau eraill;
3. Caffael, gosod neu newid cyfarpar, peiriannau a cherbydau symudol neu ansymudol;
4. Caffael cyfalaf cyfranddaliadau neu gyfalaf benthyciadau mewn unrhyw gorff corfforaethol
5. Gwaith y bwriedir iddo gynyddu'n sylweddol inswleiddiad thermol adeilad
6. Caffael neu baratoi rhaglen gyfrifiadurol.

**Cynghorau cymuned**
Cynghorau Cymuned yw'r cyrff cynrychioli swyddogol mwyaf lleol yng Nghymru, y dewisir eu haelodau bob pedair blynedd i gynrychioli ardal gyfan y cyngor cymuned.

**Cynllun corfforaethol**
Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhoi cyfeiriad strategol i waith yr Awdurdod i gyflawni ei weledigaeth ac yn nodi amcanion gwella allweddol y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'n adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth ag eraill i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau. Mae'n amlinellu hefyd sut bydd ein blaenoriaethau'n cael eu datblygu.

**Y dreth gyngor**
Dyma ffynhonnell trethiant lleol i'r awdurdod. Codir y dreth gyngor ar aelwydydd yn ei ardal gan yr awdurdod bilio, ac mae'n cynnwys y dreth gyngor ar gyfer awdurdodau'r Heddlu a Chynghorau Cymuned yn ogystal ag ardoll treth gyngor yr awdurdod ei hun. Dosberthir yr enillion i awdurdodau praeseptio ac i'w defnyddio gan eu cronfeydd cyffredinol eu hunain.

**Sylfaen y dreth gyngor**
Sylfaen y dreth gyngor yw mesur capasiti trethadwy cymharol gwahanol ardaloedd yn y Fwrdeistref Sirol, ac fe'i cyfrifir yn unol â'r rheolau rhagnodedig. Mae pob eiddo domestig yn y Fwrdeistref Sirol wedi'i brisio gan y Swyddfa Brisio. Unwaith iddo gael ei brisio, dyrennir un o'r naw band prisio (Bandiau A i I) i'r eiddo. Caiff pob band ei luosi â ffactor penodol i ddod ag ef i'r hyn sy'n gyfwerth â Band D. Mae sylfaen y dreth yn cynrychioli nifer yr anheddau y codir tâl arnynt yn yr ardal a fynegir fel cyfwerth â Band D, gan ystyried cyfanswm nifer yr esemptiadau, gostyngiadau a gostyngiadau band anabl, gyda'r Sylfaen Dreth net yn cael ei chyfrifo drwy ystyried cyfradd gasglu amcangyfrifedig y Cyngor. Mesurir y Dreth Gyngor fel yr hyn sy'n gyfwerth â 'Band D' fel y safon ar gyfer cymharu lefelau'r dreth gyngor rhwng ac ar draws awdurdodau lleol.

**Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTR)**
Disodlwyd Cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor gan gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTR) ym mis Ebrill 2013. Gosodir y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru gan Reoliadau a wnaed dan Atodlen 1B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012).

**Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd**
Mae'r rhain yn gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u neilltuo at ddiben penodol.

**Etholwyr**
Y rhai sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiad.

**Amcangyfrifon**
Dyma'r symiau y disgwylir iddynt gael eu gwario neu eu derbyn fel incwm, yn ystod cyfnod cyfrifyddu.

**IFRS (Safonau adrodd ariannol rhyngwladol)**
Dyma gyfres o safonau cyfrifyddu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB). Nod IFRS yw darparu fframwaith byd-eang ar gyfer sut mae'r sector cyhoeddus a chwmnïau preifat yn paratoi ac yn datgelu eu datganiadau ariannol. Mae cael safon ryngwladol yn arbennig o bwysig i sefydliadau mawr. Bydd mabwysiadu un set o safonau byd-eang yn symleiddio gweithdrefnau cyfrifyddu drwy ganiatáu i gwmni ddefnyddio un iaith adrodd drwyddi draw. Bydd un safon yn rhoi darlun cydlynol ar gyllid i gwsmeriaid ac archwilwyr hefyd. Ni ddylid drysu rhwng IFRS ac IAS (Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol), sef safonau hŷn y mae IFRS bellach wedi'u disodli.

**Ffioedd a thaliadau**
Mae rhai lefelau ffioedd yn cael eu pennu gan y llywodraeth – fel ffioedd cynllunio a thrwyddedu – tra bod gan gynghorau reolaeth dros eraill, fel taliadau parcio, llogi adeiladau ac ati. Mae nifer bach o wasanaethau na chaniateir i Gynghorau godi tâl amdanynt – er enghraifft, addysg ysgol ac etholiadau.

**Ardoll**
Mae Rheoliadau Cyrff Ardollau (Cyffredinol) 1992 yn caniatáu i gorff ardollau godi ardoll ar awdurdod perthnasol (e.e. Cyngor Bwrdeistref Sirol) yn unol â'r Rheoliadau hyn, mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol i dalu gwariant y corff ardollau y byddai pŵer praeseptio perthnasol wedi bod yn arferadwy mewn perthynas ag ef. Diffinnir "pŵer praesept perthnasol" fel a ganlyn: "mewn perthynas â chorff ardollau, unrhyw bŵer dan unrhyw ddeddfiad a fyddai gan y corff hwnnw, ar wahân i adran 117 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol a gychwynnodd ym 1990 i gyhoeddi praesept, gwneud ardoll ar, neu fod ei dreuliau'n cael eu talu gan gyngor sir neu awdurdod codi tâl". Yn wahanol i braesept, ni chesglir ardoll gan dalwyr y dreth gyngor.

**Grantiau'r llywodraeth**
Cymorth gan y llywodraeth ac asiantaethau rhynglywodraethol a chyrff tebyg, boed yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, ar ffurf arian parod neu drosglwyddo asedau i Gyngor yn gyfnewid am gydymffurfiaeth yn y gorffennol neu'r dyfodol â rhai amodau sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor.

**Gwariant net**
Gwariant gros namyn incwm.

**MTFS (strategaeth ariannol tymor canolig)**
Cynllun yn mynegi sut y bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddefnyddio ei adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i ddyletswyddau statudol, gan gynnwys rheoli pwysau a risgiau ariannol dros gyfnod o 4 blynedd.

**Ardrethi annomestig (NDR)**
Modd i fusnesau lleol gyfrannu at gost gwasanaethau awdurdodau lleol. Cesglir NDR gan awdurdodau bilio ar ran Llywodraeth Cymru, ac yna caiff ei ailddosbarthu ymhlith yr holl awdurdodau lleol ac awdurdodau'r heddlu ar sail Asesiad o Wariant Safonol a'r boblogaeth. Fe'u gelwir hefyd yn 'Ardrethi Busnes'.

**Praesept**
Praesept a wneir gan awdurdodau praeseptio ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod bilio gasglu incwm gan dalwyr y dreth gyngor ar eu rhan.

**Benthyca yn unol â'r Cod Materion Ariannol**
Benthyca mwy na'r hyn a gefnogir gan Lywodraeth Cymru y mae'r awdurdod yn penderfynu y gall fforddio ei ad-dalu naill ai o arbedion a gynhyrchir o'r buddsoddiad neu o'r Dreth Gyngor.